

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Papur ymchwil

# Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15

Tachwedd 2013

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Y Gwasanaeth  
Ymchwil**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)  
Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)  
Blog: [pigion.wordpress.com](http://pigion.wordpress.com)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/2643  
Rhif dogfen:13/076

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** Papur ymchwil

# **Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15**

Tachwedd 2013

Dr Eleanor Roy

Bwriedir i'r papur hwn hysbysu'r pwyllgor craffu am Gynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru. Rhydd drosolwg o'r bloc sydd ar gael i Gymru, cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 a sut mae'r rhain yn cymharu â chynlluniau dangosol 2013-14 a chynlluniau dangosol blaenorol. Mae hefyd yn rhoi sylwadau ar y prif newidiadau ymhob maes portffolio, gan ddangos dadansoddiad pellach a defnyddio gwybodaeth ehangach na'r hyn sydd ar gael yn y dogfennau cyllideb a gyhoeddwyd lle bo modd.

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Y Gwasanaeth  
Ymchwil**



## **Amlinelliad o'r papur**

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o Gynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru, fel y'u cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Hydref 2013.

Mae Adran 1 yn cyflwyno Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15, gan gynnwys Cytundeb ynghylch y Gyllideb.

Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg o'r newidiadau o fewn bloc Cymru a dyraniadau adrannol Llywodraeth Cymru, o gymharu â chynlluniau dangosol ac ar sail flynyddol.

Mae Adrannau 3-11 yn ystyried holl bortffolios Llywodraeth Cymru yn fanylach, gan edrych ar y newidiadau mewn dyraniadau o gymharu â chynlluniau dangosol ac ar sail flynyddol. Lle bo modd caiff y rhesymau dros newidiadau i ddyraniadau eu hystyried hefyd.



# Cynnwys

<b>1. Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15.....</b>	<b>1</b>
1.1. Cytundeb ynghylch y Gyllideb.....	2
<b>2. Trosolwg o Floc Cymru .....</b>	<b>3</b>
2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (CGR) .....	3
2.2. Cyfanswm terfyn gwariant adrannol (TGA) .....	6
2.3. TGA refeniw.....	11
2.4. TGA cyfalaf.....	15
2.5. Gwariant a reolir yn flynyddol (GRF) .....	19
<b>3. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (IGC) .....</b>	<b>22</b>
3.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	22
3.2. Newidiadau blynyddol.....	25
<b>4. Llywodraeth Leol (LIL).....</b>	<b>28</b>
4.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	28
4.2. Newidiadau blynyddol.....	30
<b>5. Cymunedau a Threchu Tlodi (CThT) .....</b>	<b>34</b>
5.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	34
5.2. Newidiadau blynyddol.....	36
<b>6. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (EGTh).....</b>	<b>39</b>
6.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	39
6.2. Newidiadau blynyddol.....	42
<b>7. Addysg a Sgiliau (AS) .....</b>	<b>46</b>
7.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	46
7.2. Newidiadau blynyddol.....	49
<b>8. Cyfoeth Naturiol a Bwyd (CNB).....</b>	<b>52</b>
8.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	52
8.2. Newidiadau blynyddol.....	55
<b>9. Tai ac Adfywio (TA).....</b>	<b>58</b>
9.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	58
9.2. Newidiadau blynyddol.....	61
<b>10. Diwylliant a Chwaraeon (DCh).....</b>	<b>64</b>
10.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	64
10.2. Newidiadau blynyddol.....	67
<b>11. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (GCG) .....</b>	<b>70</b>
11.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol .....	70
11.2. Newidiadau blynyddol.....	73





## 1. Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15

Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt AC, Gynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru<sup>1</sup> gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Hydref 2013. Ategwyd y rhain gan ddogfen naratif,<sup>2</sup> tablau gweithredu<sup>3</sup> a datganiad llafar.<sup>4</sup> Yn y rhagair i'r ddogfen naratif, noda'r Gweinidog:

Mae'r toriadau sy'n ein hwynebu yn dylanwadu ar gynigion ein Cyllideb, ond rydym wedi llunio ein cynlluniau mewn ymateb i anghenion Cymru. Rydym hefyd wedi dod i gytundeb â Phlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru er mwyn ymateb i ddwy o'r prif heriau sy'n wynebu Cymru, gan gynnwys ein hymrwymiad i dorri'r cyswllt rhwng tloedi a chyrhaeddiad addysgol a'n hymrwymiad i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Wrth baratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2014-15, rydym wedi bod yn agored iawn ynghylch gwir natur y penderfyniadau anodd sydd o'n blaenau. Rydym wedi gwrandao ar ein prif bartneriaid, ar y trydydd sector ac ar ddefnyddwyr gwasanaethau wrth ffurfio ein cynlluniau, er mwyn deall eu blaenoriaethau ac edrych sut y gallwn ymateb i'r heriau gyda'n gilydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais a roddwn ar weithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau'r canlyniadau rydym am eu gweld yng Nghymru.<sup>5</sup>

**Noder bod yr holl gyfrifiadau termau real a ddangosir yn y papur hwn wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel y'u diweddarwyd ym mis Medi 2013). Mae'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd fel a ganlyn: 1.9% ar gyfer 2014-15 ac 1.8% ar gyfer 2015-16**

Mae'n bwysig ystyried a yw'r rhagolygon ar gyfer datchwyddwyr CMC yn cynrychioli'r pwysau o ran costau a wynebir gan y sector cyhoeddus i raddau digonol, y gall costau cyflogau a chontractwyr ddylanwadu arnynt.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15 Dyraniadau Gwariant](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Gweinidog Cyllid), [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 8 Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), Hydref 2013 (tudalen 1) [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

## 1.1. Cytundeb ynghylch y Gyllideb

Ar 8 Hydref, cyn i'r cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft gael eu rhyddhau, cyhoeddwyd cytundeb 'nas gwelwyd o'r blaen' rhwng Llywodraeth Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru.<sup>6</sup> Roedd y cytundeb hwn yn werth £100 miliwn ac yn cynnwys:

- £35m ychwanegol ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion;
- £50m ar gyfer Cronfa Gofal Canolraddol newydd arloesol;
- £5.5m i liniaru toriadau arfaethedig i'r Rhaglen Cefnogi Pobl;
- £9.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y Gronfa Technoleg Iechyd a Thelefeddygaeth.

---

<sup>6</sup> Datganiad Newyddion Llywodraeth Cymru, [\*Datganiad ar y cyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, Leanne Wood, Arweinydd Plaid Cymru a Kirsty Williams, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru\*](#), 8 Hydref 2013 [cyrchwyd 18 Hydref 2013]

## 2. Trosolwg o Floc Cymru

Dengys Atodlen 6 i Gynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15<sup>7</sup> **fod £16 biliwn wedi'i ddarparu gan Drysorlys EM ar gyfer cyfanswm bloc Cymru ym mlwyddyn ariannol 2014-15.**

Mae'r ffigurau a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru fel llinell sylfaen 2013-14 yn dod o Gyllideb Atodol 2013-14 ym mis Mehefin 2013.<sup>8</sup> Nid addaswyd llinell sylfaen 2013-14, ond mae ffigurau dangosol 2014-15 yng nghyllideb atodol 2013-14 wedi cael eu hailddatgan ac mae'r addasiadau a wnaed yn deillio'n bennaf o drosglwyddiadau â Llywodraeth y DU ac fe'u dangosir yn Atodiad C i ddogfen Cyllideb Ddrafft 2014-15.<sup>9</sup>

### 2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (CGR)<sup>10</sup>

CGR ym mloc Cymru yw £16 biliwn yn 2014-15 ac £16.1 biliwn yn 2015-16.

CGR a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru yw £15.7 biliwn yn 2014-15 ac £15.5 biliwn yn 2015-16.

#### *Newid o gymharu â chynlluniau dangosol*

**Tabl 1** - dengys y newidiadau i CGR ers cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14).

Mae CGR ym mloc Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £132.9 miliwn, neu 0.8%. Mae CGR a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £144.8 miliwn, neu 0.9%. Mae'r newid hwn yn cynnwys dyraniadau o £548.1 miliwn, gostyngiadau o £402.7 miliwn, a £0.6 miliwn mewn trosglwyddiadau i Lywodraeth y DU.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15](#), Hydref 2013 (Atodlen 6 tudalen 25) [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2013-14](#), Mehefin 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Atodiad C) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>10</sup> **Cyfanswm y gwariant a reolir (CGR)** - cyfanswm cyfunol dwy elfen gyllidebol gwariant a reolir yn flynyddol (GRF) a therfynau gwariant adrannol (TGA).

## Newidiadau blynyddol

**Tabl 2** - dengys newidiadau blynyddol i CGR o fewn bloc Cymru (h.y. dyraniadau i Llywodraeth Cymru, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol<sup>11</sup>, cronfeydd wrth gefn a thaliadau uniongyrchol, ond heb gynnwys darpariaeth ar gyfer Swyddfa Cymru).

O gymharu â 2013-14 mae CGR ym mloc Cymru wedi cynyddu £209.4 miliwn neu 1.3% (gostyngiad o 0.6% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £339.1 miliwn, neu 2.1% (gostyngiad o 1.5% mewn termau real).

O gymharu â 2013-14, mae CGR a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru (neu brif grwpiau gwariant, PGGau)<sup>12</sup> wedi cynyddu £182.6 miliwn, neu 1.2% (gostyngiad o 0.7% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £7.5 miliwn, neu 0% (gostyngiad o 3.6% mewn termau real).

**Tabl 1: Newidiadau i CGR ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Prif Grŵp Gwariant	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014- 15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cart
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,408,640	6,544,725	136,085	2.1
Llywodraeth Leol	4,708,651	4,612,801	-95,850	-2.0
Cymunedau a Threchu Tlodi	212,321	212,696	375	0.2
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	940,088	977,185	37,097	3.9
Addysg a Sgiliau	2,033,472	1,986,842	-46,630	-2.3
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	395,423	418,610	23,187	5.9
Tai ac Adfywio	372,263	464,639	92,376	24.8
Diwylliant a Chwaraeon	140,995	139,900	-1,095	-0.8
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	350,434	349,703	-731	-0.2
<b>Cyfanswm Dyraniadau CGR Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,562,287</b>	<b>15,707,101</b>	<b>144,814</b>	<b>0.9</b>
Cronfeydd Refeniwr Wrth Gefn*	220,025	237,491	17,466	7.9
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	41,858	12,767	-29,091	-69.5
Comisiwn y Cynulliad	51,098	51,098	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,224	-20	-0.4
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,204	3,980	-224	-5.3
Taliadau Uniongyrchol	645	645	0	0.0
<b>Cyfanswm CGR Cymru</b>	<b>15,885,361</b>	<b>16,018,306</b>	<b>132,945</b>	<b>0.8</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru. Mae ffigurau dangosol 2014-15 yn y Gyllideb Atodol yn ymgorffori addasiadau llinell sylfaen fel y'u nodwyd yn Atodiad C i ddogfen esboniadol Cyllideb Ddrafft 2014-15

<sup>11</sup> Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

<sup>12</sup> **Prif grwpiau gwariant (PGGau)** - Rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Mae'r prif grwpiau gwariant (PGG) ar y lefel uchaf yn hyn o beth ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gwmpasau Gweinidogol. Islaw lefel PGG, nodir gwariant yn ôl meysydd rhaglenni gwario (MRhGau) ac, o fewn y rhain, gamau gweithredu.

**Tabl 2: Newidiadau blynyddol i CGR**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
	Atodol 2013-14	Ddrafft 2014-15	Ddrafft ddangosol 2015-16	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,319,093	6,544,725	6,568,532	225,632	3.6	23,807	0.4	249,439	3.9	103,601	1.6	-92,336	-1.4	12,986	0.2
Llywodraeth Leol	4,759,684	4,612,801	4,506,639	-146,883	-3.1	-106,162	-2.3	-253,045	-5.3	-232,892	-4.9	-185,847	-4.0	-415,274	-8.7
Cymunedau a Threchu Tlodi	212,006	212,696	205,984	690	0.3	-6,712	-3.2	-6,022	-2.8	-3,276	-1.5	-10,354	-4.9	-13,437	-6.3
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	900,527	977,185	983,520	76,658	8.5	6,335	0.6	82,993	9.2	58,438	6.5	-11,055	-1.1	47,588	5.3
Addysg a Sgiliau	2,037,661	1,986,842	1,945,790	-50,819	-2.5	-41,052	-2.1	-91,871	-4.5	-87,865	-4.3	-75,457	-3.8	-161,915	-7.9
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	413,902	418,610	402,651	4,708	1.1	-15,959	-3.8	-11,251	-2.7	-3,097	-0.7	-23,079	-5.5	-25,746	-6.2
Tai ac Adfywio	394,930	464,639	447,502	69,709	17.7	-17,137	-3.7	52,572	13.3	61,045	15.5	-25,050	-5.4	36,463	9.2
Diwylliant a Chwaraeon	142,462	139,900	140,603	-2,562	-1.8	703	0.5	-1,859	-1.3	-5,171	-3.6	-1,783	-1.3	-6,920	-4.9
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	344,223	349,703	330,713	5,480	1.6	-18,990	-5.4	-13,510	-3.9	-1,040	-0.3	-24,838	-7.1	-25,415	-7.4
<b>Cyfanswm Dyraniadau CGR Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,524,488</b>	<b>15,707,101</b>	<b>15,531,934</b>	<b>182,613</b>	<b>1.2</b>	<b>-175,167</b>	<b>-1.1</b>	<b>7,446</b>	<b>0.0</b>	<b>-110,257</b>	<b>-0.7</b>	<b>-449,798</b>	<b>-2.9</b>	<b>-551,669</b>	<b>-3.6</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn*	144,491	237,491	415,648	93,000	64.4	178,157	75.0	271,157	187.7	88,572	61.3	170,808	71.9	256,195	177.3
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	80,160	12,767	139,536	-67,393	-84.1	126,769	992.9	59,376	74.1	-67,631	-84.4	124,302	973.6	54,353	67.8
Cornisiwn y Cynulliad	49,950	51,098	51,098	1,148	2.3	0	0.0	1,148	2.3	195	0.4	-904	-1.8	-691	-1.4
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,224	5,224	-20	-0.4	0	0.0	-20	-0.4	-117	-2.2	-92	-1.8	-208	-4.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,942	3,980	3,980	38	1.0	0	0.0	38	1.0	-36	-0.9	-70	-1.8	-105	-2.7
Taliadau Uniongyrchol	645	645	645	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-12	-1.9	-11	-1.8	-23	-3.6
<b>Cyfanswm CGR Cymru</b>	<b>15,808,920</b>	<b>16,018,306</b>	<b>16,148,065</b>	<b>209,386</b>	<b>1.3</b>	<b>129,759</b>	<b>0.8</b>	<b>339,145</b>	<b>2.1</b>	<b>-89,287</b>	<b>-0.6</b>	<b>-155,767</b>	<b>-1.0</b>	<b>-242,149</b>	<b>-1.5</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.

\* Noder bod y newidiadau mawr mewn cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod cronfeydd wrth gefn 2013-14 eisoes wedi cael eu dyrannu'n rhannol yn ystod y flwyddyn, tra bod y rheini ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros mewn cronfa wrth gefn.


## 2.2. Cyfanswm terfyn gwariant adrannol (TGA)<sup>13</sup>

Cyfanswm TGA ym mloc Cymru yw £15.6 biliwn yn 2014-15 ac £15.7 biliwn yn 2015-16.

Cyfanswm TGA a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru yw £15.3 biliwn yn 2014-15 ac £15.1 biliwn yn 2015-16.

**Ffigur 1** - dengys gyfran cyfanswm dyraniad TGA i bob PGG yn 2014-15. Gellir gweld, ynghyd ag lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, fod PGGau yn cyfrif am dros 70 y cant o gyfanswm cyllideb TGA Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 1 : Cyfran cyfanswm dyraniad TGA i bob PGG yn 2014-15**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

<sup>13</sup> **Terfyn gwariant adrannol (TGA)** - Wedi'i osod dros dair neu bedair blynedd fel rheol, fel rhan o broses adolygu gwariant Llywodraeth y DU, hwn yw terfyn cyllideb aml-flwyddyn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r TGA heb ei neilltuo (y gyllideb a neilltuwyd) ac mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i benderfynu ar ei blaenoriaethau o ran gwariant yn ôl ei disgresiwn llawn. Pennir newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer yr eitemau hyn gan fformiwla Barnett. Fodd bynnag, mae rhai elfennau o TGA wedi'u neilltuo a dim ond at ddibenion penodol y gellir eu defnyddio (y gyllideb heb ei neilltuo).

### ***Newid o gymharu â chynlluniau dangosol***

**Tabl 3** - dengys y newidiadau i gyfanswm TGA ers cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14).

Mae cyfanswm TGA ym mloc Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £146.7 miliwn, neu 0.9%.

Mae cyfanswm TGA a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £158.4 miliwn, neu 1.0%. Mae'r newid hwn yn cynnwys dyraniadau o £514.3 miliwn, gostyngiadau o £355.3 miliwn, a £0.6 miliwn mewn trosglwyddiadau i Lywodraeth y DU.

### ***Newidiadau blynyddol***

**Tabl 4** - dengys newidiadau blynyddol i gyfanswm TGA (refeniw a chyfalaf) ym mloc Cymru.

O gymharu â 2013-14 mae cyfanswm TGA ym mloc Cymru wedi cynyddu £135.9 miliwn neu 0.9% (gostyngiad o 1.0% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £230.7 miliwn, neu 1.5% (gostyngiad o 2.2% mewn termau real).

O gymharu â 2013-14 mae cyfanswm dyraniad TGA i PGGau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £109.1 miliwn neu 0.7% (gostyngiad o 1.2% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn ostyngiad cyffredinol o £101 miliwn, neu 0.7% (gostyngiad o 4.2% mewn termau real).

**Ffigur 2** - dengys gyfanswm dyraniadau TGA i bob PGG ymhob blwyddyn yn ystod cyfnod y gyllideb, a dengys **fffigur 3** y newid canrannol yng nghyfanswm TGA i bob PGG rhwng 2013-14 a 2014-15 yn erbyn cyfanswm cyffredinol y newid mewn TGA i PGGau Llywodraeth Cymru (gostyngiad o 0.7%). O hyn gellir gweld y canlynol:

- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm TGA rhwng 2013-14 a 2014-15 yn PGG **Addysg a Sgiliau**, gyda gostyngiad o 4.7% (gostyngiad o 6.5% mewn termau real).
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf yng nghyfanswm TGA yn PGG **Tai ac Adfywio**, gyda chynnydd o 15.0% (gostyngiad o 12.8% mewn termau real).

Tabl 3: Newidiadau i gyfanswm TGA ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14

Prif Grŵp Gwariant	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014- 15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,195,212	6,378,630	183,418	3.0
Llywodraeth Leol	4,684,163	4,588,313	-95,850	-2.0
Cymunedau a Threchu Tlodi	212,321	212,696	375	0.2
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	891,142	928,239	37,097	4.2
Addysg a Sgiliau	1,850,323	1,772,758	-77,565	-4.2
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	395,423	415,710	20,287	5.1
Tai ac Adfywio	443,263	535,639	92,376	20.8
Diwylliant a Chwaraeon	138,255	137,160	-1,095	-0.8
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	348,282	347,633	-649	-0.2
<b>Cyfanswm Dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,158,384</b>	<b>15,316,778</b>	<b>158,394</b>	<b>1.0</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn*	220,025	237,491	17,466	7.9
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	41,858	12,767	-29,091	-69.5
Comisiwn y Cynulliad	50,598	50,598	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,224	-20	-0.4
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,204	4,204	0	0.0
Taliadau Uniongyrchol	645	645	0	0.0
<b>Cyfanswm TGA Cymru</b>	<b>15,480,958</b>	<b>15,627,707</b>	<b>146,749</b>	<b>0.9</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.  
Mae ffigurau dangosol 2014-15 yn y Gyllideb Atodol yn ymgorffori addasiadau llinell sylfaen fel y'u nodwyd  
yn Atodiad C i ddogfen esboniadol Cyllideb Ddrafft 2014-15




**Tabl 4: Newidiadau blynyddol i gyfanswm TGA**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
	At odol 2013-14	Ddrafft 2014-15	Ddrafft ddangosol 2015-16	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,182,203	6,378,630	6,403,132	196,427	3.2	24,502	0.4	220,929	3.6	77,493	1.3	-88,716	-1.4	-9,569	-0.2
Llywodraeth Leol	4,737,828	4,588,313	4,482,151	-149,515	-3.2	-106,162	-2.3	-255,677	-5.4	-235,067	-5.0	-185,414	-4.0	-417,024	-8.8
Cymunedau a Threchu Tlodi	212,006	212,696	205,984	690	0.3	-6,712	-3.2	-6,022	-2.8	-3,276	-1.5	-10,354	-4.9	-13,437	-6.3
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	852,609	928,239	923,395	75,630	8.9	-4,844	-0.5	70,786	8.3	58,322	6.8	-21,171	-2.3	37,546	4.4
Addysg a Sgiliau	1,860,792	1,772,758	1,707,928	-88,034	-4.7	-64,830	-3.7	-152,864	-8.2	-121,088	-6.5	-95,029	-5.4	-214,346	-11.5
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	413,902	415,710	399,751	1,808	0.4	-15,959	-3.8	-14,151	-3.4	-5,943	-1.4	-23,027	-5.5	-28,541	-6.9
Tai ac Adfywio	465,930	535,639	518,502	69,709	15.0	-17,137	-3.2	52,572	11.3	59,722	12.8	-26,305	-4.9	33,907	7.3
Diwylliant a Chwaraeon	139,722	137,160	137,590	-2,562	-1.8	430	0.3	-2,132	-1.5	-5,119	-3.7	-2,003	-1.5	-7,085	-5.1
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	342,672	347,633	328,226	4,961	1.4	-19,407	-5.6	-14,446	-4.2	-1,521	-0.4	-25,211	-7.3	-26,261	-7.7
<b>Cyfanswm Dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,207,664</b>	<b>15,316,778</b>	<b>15,106,659</b>	<b>109,114</b>	<b>0.7</b>	<b>-210,119</b>	<b>-1.4</b>	<b>-101,005</b>	<b>-0.7</b>	<b>-176,479</b>	<b>-1.2</b>	<b>-477,231</b>	<b>-3.1</b>	<b>-644,811</b>	<b>-4.2</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn	144,491	237,491	415,648	93,000	64.4	178,157	75.0	271,157	187.7	88,572	61.3	170,808	71.9	256,195	177.3
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	80,160	12,767	139,536	-67,393	-84.1	126,769	992.9	59,376	74.1	-67,631	-84.4	124,302	973.6	54,353	67.8
Comisiwn y Cynulliad	49,450	50,598	50,598	1,148	2.3	0	0.0	1,148	2.3	205	0.4	-895	-1.8	-673	-1.4
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,224	5,224	-20	-0.4	0	0.0	-20	-0.4	-117	-2.2	-92	-1.8	-208	-4.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,144	4,204	4,204	60	1.4	0	0.0	60	1.4	-18	-0.4	-74	-1.8	-91	-2.2
Taliadau Uniongyrchol	645	645	645	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-12	-1.9	-11	-1.8	-23	-3.6
<b>Cyfanswm TGA Cymru</b>	<b>15,491,798</b>	<b>15,627,707</b>	<b>15,722,514</b>	<b>135,909</b>	<b>0.9</b>	<b>94,807</b>	<b>0.6</b>	<b>230,716</b>	<b>1.5</b>	<b>-155,481</b>	<b>-1.0</b>	<b>-183,194</b>	<b>-1.2</b>	<b>-335,259</b>	<b>-2.2</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.


\* Noder bod y newidiadau mawr mewn cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod cronfeydd wrth gefn 2013-14 eisoes wedi cael eu dyrannu'n rhannol yn ystod y flwyddyn, tra bod y rheini ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros mewn cronfa wrth gefn.

**Ffigur 2: Cyfanswm TGA fesul PGG mewn termau arian parod, 2013-14 i 2014-15**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

**Ffigur 3: Newid canrannol yng nghyfanswm TGA 2013-14 i 2014-15 (termau arian parod)**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

### 2.3. TGA refeniw

**TGA refeniw yn y bloc yw £14.2 biliwn yn 2014-15 ac £14.3 biliwn yn 2016-16.**

**TGA refeniw a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru yw £13.9 biliwn yn 2014-15 ac £13.8 biliwn yn 2015-16.**

**Cronfeydd refeniw wrth gefn** yn 2014-15 yw £237.5 miliwn neu 1.6% o'r TGA refeniw yn y bloc. Mae'r lefel hon o gronfeydd refeniw wrth gefn yn debyg i'r hyn a gafwyd adeg cyllideb ddrafft 2013-14 (1.5% TGA refeniw).

#### ***Newid o gymharu â chynlluniau dangosol***

**Tabl 5** - dengys y newidiadau i TGA refeniw ers cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae TGA refeniw ym mloc Cymru ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £83 miliwn, neu 0.6%.

Mae TGA refeniw a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £100.4 miliwn, neu 0.7%. Dyma ganlyniad net £255.5 miliwn o ddyraniadau ychwanegol, a wrthbwysir gan drosglwyddiad o £0.6 miliwn i Lywodraeth y DU a gostyngiadau refeniw o £355.3 miliwn.

#### ***Newidiadau blynyddol***

**Tabl 6** - dengys newidiadau blynyddol i TGA refeniw ym mloc Cymru.


O gymharu â 2013-14 mae TGA refeniw ym mloc Cymru yn cynyddu £8.6 miliwn neu 0.1% (gostyngiad o 1.8% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £74.2 miliwn, neu 0.5% (gostyngiad o 3.1% mewn termau real).

O gymharu â 2013-14 mae TGA refeniw a ddyrennir i PGGau Llywodraeth Cymru yn gostwng £85.3 miliwn neu 0.6% (gostyngiad o 2.5% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn ostyngiad cyffredinol o £197.9 miliwn, neu 1.4% (gostyngiad o 5.0% mewn termau real).

**Ffigur 4** - dengys y newid canrannol mewn TGA refeniw i bob PGG rhwng 2013-14 a 2014-15 yn erbyn y newid cyffredinol mewn TGA refeniw i PGGau Llywodraeth Cymru (gostyngiad o 0.6%). O hyn gellir gweld y canlynol:

- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn TGA refeniw rhwng 2013-14 a 2014-15 yn PGG **Adnoddau Naturiol a Bwyd**, gyda gostyngiad o 7.7% (gostyngiad o 9.4% mewn termau real).
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf yn PGG **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**, gyda chynnydd o 2.6% (cynnydd o 0.7% mewn termau real).

**Ffigur 4: Newid canrannol mewn TGA refeniw fesul PGG mewn termau arian parod, 2013-14 i 2015-16**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

Tabl 5: Newidiadau i TGA refeniw ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14

Prif Grŵp Gwariant	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014- 15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,955,662	6,096,580	140,918	2.4
Llywodraeth Leol	4,661,243	4,565,393	-95,850	-2.1
Cymunedau a Threchu Tlodi	195,871	192,246	-3,625	-1.9
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	540,146	513,243	-26,903	-5.0
Addysg a Sgiliau	1,696,489	1,618,924	-77,565	-4.6
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	324,283	302,070	-22,213	-6.8
Tai ac Adfywio	175,893	169,269	-6,624	-3.8
Diwylliant a Chwaraeon	125,511	121,116	-4,395	-3.5
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	<b>324,469</b>	320,320	-4,149	-1.3
<b>Cyfanswm TGA Refeniw Llywodraeth Cymru</b>	<b>13,999,567</b>	<b>13,899,161</b>	<b>-100,406</b>	<b>-0.7</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn*	220,025	237,491	17,466	7.9
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	0	0	0	0.0
Comisiwn y Cynulliad	49,598	49,598	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,224	-20	-0.4
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,191	4,191	0	0.0
Taliadau Uniongyrchol	645	645	0	0.0
<b>Cyfanswm TGA Refeniw Cymru</b>	<b>14,279,270</b>	<b>14,196,310</b>	<b>-82,960</b>	<b>-0.6</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.  
Mae ffigurau dangosol 2014-15 yn y Gyllideb Atodol yn ymgorffori addasiadau llinell sylfaen fel y'u nodwyd yn Atodiad C i ddogfen esboniadol Cyllideb Ddrafft 2014-15

**Tabl 6: Newidiadau blynyddol i TGA refeniw**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
	Atodol 2013-14	Ddrafft 2014-15	Ddrafft ddangosol 2015-16	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,940,553	6,096,580	6,168,582	156,027	2.6	72,002	1.2	228,029	3.8	42,352	0.7	-37,069	-0.6	5,974	0.1
Llywodraeth Leol	4,714,908	4,565,393	4,459,231	-149,515	-3.2	-106,162	-2.3	-255,677	-5.4	-234,640	-5.0	-185,009	-4.1	-416,199	-8.8
Cymunedau a Threchu Tlodi	187,556	192,246	191,534	4,690	2.5	-712	-0.4	3,978	2.1	1,105	0.6	-4,099	-2.1	-2,917	-1.6
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	535,288	513,243	505,099	-22,045	-4.1	-8,144	-1.6	-30,189	-5.6	-31,615	-5.9	-17,075	-3.3	-48,371	-9.0
Addysg a Sgiliau	1,658,658	1,618,924	1,564,094	-39,734	-2.4	-54,830	-3.4	-94,564	-5.7	-69,920	-4.2	-82,486	-5.1	-150,868	-9.1
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	327,278	302,070	292,111	-25,208	-7.7	-9,959	-3.3	-35,167	-10.7	-30,840	-9.4	-15,124	-5.0	-45,682	-14.0
Tai ac Adfywio	175,905	169,269	169,532	-6,636	-3.8	263	0.2	-6,373	-3.6	-9,792	-5.6	-2,735	-1.6	-12,476	-7.1
Diwylliant a Chwaraeon	125,498	121,116	119,646	-4,382	-3.5	-1,470	-1.2	-5,852	-4.7	-6,640	-5.3	-3,586	-3.0	-10,159	-8.1
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	318,859	320,320	316,791	1,461	0.5	-3,529	-1.1	-2,068	-0.6	-4,512	-1.4	-9,130	-2.9	-13,472	-4.2
<b>Cyfanswm TGA Refeniw Llywodraeth Cymru</b>	<b>13,984,503</b>	<b>13,899,161</b>	<b>13,786,620</b>	<b>-85,342</b>	<b>-0.6</b>	<b>-112,541</b>	<b>-0.8</b>	<b>-197,883</b>	<b>-1.4</b>	<b>-344,502</b>	<b>-2.5</b>	<b>-356,312</b>	<b>-2.6</b>	<b>-694,171</b>	<b>-5.0</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn*	144,491	237,491	415,648	93,000	64.4	178,157	75.0	271,157	187.7	88,572	61.3	170,808	71.9	256,195	177.3
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	0	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Comisiwn y Cynulliad	48,700	49,598	49,598	898	1.8	0	0.0	898	1.8	-27	-0.1	-877	-1.8	-887	-1.8
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,224	5,224	5,224	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-97	-1.9	-92	-1.8	-188	-3.6
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,131	4,191	4,191	60	1.5	0	0.0	60	1.5	-18	-0.4	-74	-1.8	-91	-2.2
Taliadau Uniongyrchol	645	645	645	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-12	-1.9	-11	-1.8	-23	-3.6
<b>Cyfanswm TGA Refeniw Cymru</b>	<b>14,187,694</b>	<b>14,196,310</b>	<b>14,261,926</b>	<b>8,616</b>	<b>0.1</b>	<b>65,616</b>	<b>0.5</b>	<b>74,232</b>	<b>0.5</b>	<b>-256,085</b>	<b>-1.8</b>	<b>-186,560</b>	<b>-1.3</b>	<b>-439,166</b>	<b>-3.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.

\* Noder bod y newidiadau mawr mewn cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod cronfeydd wrth gefn 2013-14 eisoes wedi cael eu dyrannu'n rhannol yn ystod y flwyddyn, tra bod y rheini ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros mewn cronfa wrth gefn.

## 2.4. TGA cyfalaf

TGA cyfalaf yn y bloc yw £1.4 biliwn yn 2014-15 ac £1.5 biliwn yn 2015-16.

TGA cyfalaf a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru yw £1.4 biliwn yn 2014-15 ac £1.3 biliwn yn 2015-16.

Cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn 2013-14 £12.8 miliwn neu 0.9% o'r TGA cyfalaf yn y bloc. Mae'r lefel hon yn is na'r lefel o gronfeydd cyfalaf wrth gefn a gafwyd adeg cyllideb ddrafft 2013-14 (1.6% TGA cyfalaf).

### *Newid o gymharu â chynlluniau dangosol*

**Tabl 7** - dengys y newidiadau i TGA cyfalaf ers cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae TGA cyfalaf ym mloc Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £229.7 miliwn, neu 19.1%.

Mae TGA cyfalaf a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 wedi cynyddu £258.8 miliwn, neu 22.3%. Mae hyn yn deillio o ddyraniadau ychwanegol yn gyfan gwbl. O'r dyraniadau ychwanegol hyn, caiff tua £240.5 miliwn eu gwneud yn unol â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (CBSC), fel y nodwyd yn y datganiad a ryddhawyd gan y Gweinidog Cyllid ar 9 Hydref 2013.<sup>14</sup>

### *Newidiadau blynyddol*

**Tabl 8** - dengys y newidiadau blynyddol i TGA cyfalaf ym mloc Cymru.

O gymharu â 2013-14 mae TGA cyfalaf ym mloc Cymru yn cynyddu £127.3 miliwn neu 9.8% (cynnydd o 7.7% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £156.5 miliwn, neu 12.0% (cynnydd o 8.0% mewn termau real).

O gymharu â 2013-14 mae TGA cyfalaf a ddyrennir i PGGau Llywodraeth Cymru yn cynyddu £194.5 miliwn neu 15.9% (gostyngiad o 13.7% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £96.9 miliwn, neu 7.9% (cynnydd o 4.0% mewn termau real).


---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Gweinidog Cyllid), Datganiad (Ysgrifenedig) y Cabinet, [Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Dyraniadau Cyfalaf Ychwanegol](#), 9 Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

**Ffigur 5** - dengys y newid canrannol mewn TGA cyfalaf i bob PGG rhwng 2013-14 a 2014-15 yn erbyn y newid cyffredinol mewn TGA cyfalaf i PGGau Llywodraeth Cymru (cynnydd o 15.9%). O hyn gellir gweld y canlynol:

- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn TGA cyfalaf rhwng 2013-14 a 2014-15 yn PGG **Addysg a Sgiliau**, gyda gostyngiad o 23.9% (gostyngiad o 25.3% mewn termau real).
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf mewn TGA cyfalaf rhwng 2013-14 a 2014-15 yn PGG **Adnoddau Naturiol a Bwyd**, gyda chynnydd o 31.2% (cynnydd o 28.7% mewn termau real).

**Ffigur 5: Newid canrannol mewn TGA cyfalaf fesul PGG mewn termau arian parod, 2013-14 i 2015-16**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru



**Tabl 7: Newidiadau i TGA cyfalaf ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Prif Grŵp Gwariant	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014- 15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cart
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	239,550	282,050	42,500	17.7
Llywodraeth Leol	22,920	22,920	0	0.0
Cymunedau a Threchu Tlodi	16,450	20,450	4,000	24.3
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	350,996	414,996	64,000	18.2
Addysg a Sgiliau	153,834	153,834	0	0.0
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	71,140	113,640	42,500	59.7
Tai ac Adfywio	267,370	366,370	99,000	37.0
Diwylliant a Chwaraeon	12,744	16,044	3,300	25.9
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	<b>23,813</b>	27,313	3,500	14.7
<b>Cyfanswm Dyraniadau TGA Cyfalaf Llywodraeth Cymru</b>	<b>1,158,817</b>	<b>1,417,617</b>	<b>258,800</b>	<b>22.3</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn*	0	0	0	0.0
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	41,858	12,767	-29,091	-69.5
Comisiwn y Cynulliad	1,000	1,000	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	0	0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	13	13	0	0.0
Taliadau Uniongyrchol	0	0	0	0.0
<b>Cyfanswm TGA Cyfalaf Cymru</b>	<b>1,201,688</b>	<b>1,431,397</b>	<b>229,709</b>	<b>19.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.  
Mae ffigurau dangosol 2014-15 yn y Gyllideb Atodol yn ymgorffori addasiadau llinell sylfaen fel y'u nodwyd yn Atodiad C i ddogfen esboniadol Cyllideb Ddrafft 2014-15

**Tabl 8: Newidiadau blynyddol i TGA cyfalaf**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2015-16	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
	£000	£000	£000	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	241,650	282,050	234,550	40,400	16.7	-47,500	-16.8	-7,100	-2.9	35,141	14.5	-51,647	-18.3	-15,543	-6.4
Llywodraeth Leol	22,920	22,920	22,920	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-427	-1.9	-405	-1.8	-825	-3.6
Cymunedau a Threchu Tlodi	24,450	20,450	14,450	-4,000	-16.4	-6,000	-29.3	-10,000	-40.9	-4,381	-17.9	-6,256	-30.6	-10,520	-43.0
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	317,321	414,996	418,296	97,675	30.8	3,300	0.8	100,975	31.8	89,937	28.3	-4,096	-1.0	85,917	27.1
Addysg a Sgiliau	202,134	153,834	143,834	-48,300	-23.9	-10,000	-6.5	-58,300	-28.8	-51,168	-25.3	-12,543	-8.2	-63,478	-31.4
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	86,624	113,640	107,640	27,016	31.2	-6,000	-5.3	21,016	24.3	24,897	28.7	-7,903	-7.0	17,141	19.8
Tai ac Adfywio	290,025	366,370	348,970	76,345	26.3	-17,400	-4.7	58,945	20.3	69,514	24.0	-23,570	-6.4	46,383	16.0
Diwylliant a Chwaraeon	14,224	16,044	17,944	1,820	12.8	1,900	11.8	3,720	26.2	1,521	10.7	1,583	9.9	3,074	21.6
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	23,813	27,313	11,435	3,500	14.7	-15,878	-58.1	-12,378	-52.0	2,991	12.6	-16,080	-58.9	-12,790	-53.7
<b>Cyfanswm Dyraniadau TGA Cyfalaf Llywodraeth Cymru</b>	<b>1,223,161</b>	<b>1,417,617</b>	<b>1,320,039</b>	<b>194,456</b>	<b>15.9</b>	<b>-97,578</b>	<b>-6.9</b>	<b>96,878</b>	<b>7.9</b>	<b>168,023</b>	<b>13.7</b>	<b>-120,919</b>	<b>-8.5</b>	<b>49,360</b>	<b>4.0</b>
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn*	0	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn*	80,160	12,767	139,536	-67,393	-84.1	126,769	992.9	59,376	74.1	-67,631	-84.4	124,302	973.6	54,353	67.8
Comisiwn y Cynulliad	750	1,000	1,000	250	33.3	0	0.0	250	33.3	231	30.8	-18	-1.8	214	28.5
Archwilydd Cyffredinol Cymru	20	0	0	-20	-100.0	0	0.0	-20	-100.0	-20	-100.0	0	0.0	-20	-100.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	13	13	13	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-0	-1.9	-0	-1.8	-0	-3.6
Taliadau Uniongyrchol	0	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
<b>Cyfanswm TGA Cyfalaf Cymru</b>	<b>1,304,104</b>	<b>1,431,397</b>	<b>1,460,588</b>	<b>127,293</b>	<b>9.8</b>	<b>29,191</b>	<b>2.0</b>	<b>156,484</b>	<b>12.0</b>	<b>100,604</b>	<b>7.7</b>	<b>3,365</b>	<b>0.2</b>	<b>103,906</b>	<b>8.0</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru.

\* Noder bod y newidiadau mawr mewn cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod cronfeydd wrth gefn 2013-14 eisoes wedi cael eu dyrannu'n rhannol yn ystod y flwyddyn, tra bod y rheini ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros mewn cronfa wrth gefn.

## 2.5. Gwariant a reolir yn flynyddol (GRF)<sup>15</sup>

GRF ym mloc Cymru yw £390.6 miliwn yn 2014-15 a £425.6 miliwn yn 2015-16.

GRF a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru yw £390.3 miliwn yn 2014-15 a £425.3 miliwn yn 2015-16.

### *Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

**Tabl 9** - dengys y newidiadau i GRF ers cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae GRF ym mloc Cymru ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £13.6 miliwn, neu 3.4%.

Mae GRF a ddyrannwyd i PGGau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £13.6 miliwn, neu 3.4%. Dyma ganlyniad net £33.8 miliwn o ddyraniadau ychwanegol a wrthbwyrsir gan ostyngiadau o £47.4 miliwn.

### *Newidiadau blynyddol*

**Tabl 10** - dengys y newidiadau blynyddol i GRF ym mloc Cymru.

O gymharu â 2013-14 mae GRF ym mloc Cymru yn cynyddu £73.5 miliwn neu 23.2% (cynnydd o 20.9% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £108.4 miliwn, neu 34.2% (cynnydd o 29.4% mewn termau real).

O gymharu â 2013-14 mae GRF a ddyrennir i PGGau Llywodraeth Cymru yn cynyddu £73.5 miliwn neu 23.2% (gostyngiad o 20.9% mewn termau real). Yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16) dengys hyn gynnydd cyffredinol o £108.5 miliwn, neu 34.2% (cynnydd o 29.4% mewn termau real).

---

<sup>15</sup> **Gwariant a reolir yn flynyddol (GRF)** - Gwariant sy'n fwy anwadal na'r hyn a geir o fewn terfynau gwario adrannol ac sy'n cwmpasu gwariant sydd, ar y cyfan, yn cael ei lywio gan alw ac felly ni all darpariaeth fod yn destun terfynau aml-flwyddyn yn rhesymol (er enghraifft, benthyciadau myfyrwyr). Caiff hyn ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond at y diben y'i neilltuwyd y gellir dyrannu GRF; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddisgresiwn o ran ei ddyrannu. Gall GRF pellach ddod o Drysorlys EM os oes angen, ond mae'n rhaid i unrhyw GRF na chaiff ei wario gael ei ddychwelyd.

**Tabl 9: Newidiadau i GRF ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Prif Grŵp Gwariant	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014- 15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	213,428	166,095	-47,333	-22.2
Llywodraeth Leol	24,488	24,488	0	0.0
Cymunedau a Threchu Tlodi	0	0	0	0.0
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	48,946	48,946	0	0.0
Addysg a Sgiliau	183,149	214,084	30,935	0.0
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	0	2,900	2,900	..
Tai ac Adfywio	-71,000	-71,000	0	0.0
Diwylliant a Chwaraeon	2,740	2,740	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	2,152	2,070	-82	-3.8
<b>Cyfanswm Dyraniadau GRF Llywodraeth Cymru</b>	<b>403,903</b>	<b>390,323</b>	<b>-13,580</b>	<b>-3.4</b>
Comisiwn y Cynulliad	500	500	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-224	-224	0	0.0
<b>Cyfanswm GRF Cymru</b>	<b>404,179</b>	<b>390,599</b>	<b>-13,580</b>	<b>-3.4</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

**Tabl 10: Newidiadau blynyddol i GRF**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Newid 2013-14 i 2014-		Newid 2014-15 i		Newid cyffredinol		Newid termau real		Newid termau real		Newid termau real	
	Atodol 2013-14	Ddrafft 2014-15	ddangosol 2015-16	15	15	2015-16	2015-16	2013-14 i 2015-16	2013-14 i 2014-15	2014-15 i 2015-16	2014-15 i 2015-16	2014-15 i 2015-16	cyffredinol 2013-14 i 2015-16	2013-14 i 2015-16	2013-14 i 2015-16
	£000	£000	£000	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	136,890	166,095	165,400	29,205	21.3	-695	-0.4	28,510	20.8	26,108	19.1	-3,620	-2.2	22,556	16.5
Llywodraeth Leol	21,856	24,488	24,488	2,632	12.0	0	0.0	2,632	12.0	2,175	10.0	-433	-1.8	1,750	8.0
Cymunedau a Threchu Tlodi	0	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	47,918	48,946	60,125	1,028	2.1	11,179	22.8	12,207	25.5	115	0.2	10,116	20.7	10,043	21.0
Addysg a Sgiliau	176,869	214,084	237,862	37,215	21.0	23,778	11.1	60,993	34.5	33,223	18.8	19,572	9.1	52,430	29.6
Cyfoeth Naturiol a Bwyd	0	2,900	2,900	2,900	..	0	0.0	2,900	..	2,846	..	-51	-1.8	2,796	..
Tai ac Adfywio	-71,000	-71,000	-71,000	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1,324	1.9	1,255	1.8	2,556	3.6
Diwylliant a Chwaraeon	2,740	2,740	3,013	0	0.0	273	10.0	273	10.0	-51	-1.9	220	8.0	165	6.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	1,551	2,070	2,487	519	33.5	417	20.1	936	60.3	480	31.0	373	18.0	846	54.6
<b>Cyfanswm Dyranïadau GRF Llywodraeth Cymru</b>	<b>316,824</b>	<b>390,323</b>	<b>425,275</b>	<b>73,499</b>	<b>23.2</b>	<b>34,952</b>	<b>9.0</b>	<b>108,451</b>	<b>34.2</b>	<b>66,221</b>	<b>20.9</b>	<b>27,432</b>	<b>7.0</b>	<b>93,142</b>	<b>29.4</b>
Comisiwn y Cynulliad	500	500	500	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-9	-1.9	-9	-1.8	-18	-3.6
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-202	-224	-224	-22	-10.9	0	0.0	-22	-10.9	-18	-8.8	4	1.8	-14	-6.9
<b>Cyfanswm GRF Cymru</b>	<b>317,122</b>	<b>390,599</b>	<b>425,551</b>	<b>73,477</b>	<b>23.2</b>	<b>34,952</b>	<b>8.9</b>	<b>108,429</b>	<b>34.2</b>	<b>66,194</b>	<b>20.9</b>	<b>27,428</b>	<b>7.0</b>	<b>93,110</b>	<b>29.4</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

### 3. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (IGC)

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol<sup>16</sup> ar gyfer PGG IGC, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ers cynlluniau dangosol o'r llynedd, ac yn crynhoi'r newidiadau blynyddol mwyaf yng nghamau gweithredu<sup>17</sup>/ meysydd rhaglen wariant (MRhWau)<sup>18</sup> y PGG.

Mae PGG IGC yn cyfrif am **41.6%** o gyfanswm dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru yn 2014-15.

#### 3.1. *Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

**Tabl 11** - dengys ddyraniadau yn PGG IGC ar lefel MRhW o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14) a sut mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

#### **Cyfanswm TGA**

*O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae cyfanswm TGA ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £183.4 miliwn, neu 3.0%.*

Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- trosglwyddiadau net o £39.1 miliwn allan o PGG IGC;
- dyraniadau ychwanegol o £222.5 miliwn.

---

<sup>16</sup> Noder na fydd y ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon bob amser yn creu cyfansymiau, am fod ffigurau yn cael eu talgrynnu er hwylustod.

<sup>17</sup> **Cam Gweithredu** - Rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y camau gweithredu yw'r lefel fwyaf manwl a gyhoeddir yn nogfennaeth y gyllideb ac maent yn dynodi meysydd polisi neu fenter. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd camau gweithredu o reidrwydd yn rhoi manylion dyraniadau ar lefel polisi neu raglen benodol.

<sup>18</sup> **Maes rhaglen wariant (MRhW)** - Rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Meysydd rhaglen wariant (MRhWau) yw'r ail lefel fwyaf manwl islaw prif grwpiau gwariant (PGG) ac maent yn diffinio grwpiau gwahanol o ddyraniadau yn ôl y math o wasanaethau sydd i'w darparu.

## **TGA refeniw**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA refeniw ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu **£140.9 miliwn (2.4%)**. Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Dyraniad ychwanegol o £180 miliwn ar gyfer cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG yn MRhW Cyflenwi'r GIG er mwyn cefnogi'r GIG yng Nghymru mewn perthynas ag Adolygiad Francis;
- Trosglwyddiadau allan o PGG IGC;
  - £2.4 miliwn o gam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau wedi'u Targedu yn MRhW Cyflenwi'r GIG i PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae hyn yn ymwneud ag ad-dalu prosiectau Buddsoddi-i-Arbed.
  - £0.6 miliwn o gam gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus yn MRhW Iechyd Cyhoeddus ac Atal i Adran Iechyd y DU mewn perthynas â'r Sefydliad Cenedlaethol er Safonau a Rheolaeth Fiolegol.
  - £36.1 miliwn o gam gweithredu Oedolion a Phobl Hŷn yn MRhW Gwasanaethau Cymdeithasol i PGG Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynrychioli cyfuno'r Grant Anabledau Dysgu (£32.9 miliwn) a'r Pecyn Camau Cyntaf (£3.2 miliwn) yn y grant cymorth refeniw.
- Ceir hefyd nifer o drosglwyddiadau rhwng camau gweithredu yn y PGG, a nodir ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<sup>19</sup>

## **TGA cyfalaf**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA cyfalaf ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu **£42.5 miliwn (17.7%)**, ac mae'r swm cyfan wedi'i ddyrannu i gam gweithredu/MRhW Cyflenwi'r GIG. Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- **£23 miliwn i brosiectau sy'n ymwneud â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (CBSC)<sup>20</sup>** gan gynnwys:
  - £3 miliwn ar gynllun Gweledigaeth Iechyd Abertawe; mae hyn yn ymwneud ag ailddatblygu Treforys;
  - £10 miliwn i gefnogi cyfleusterau yn Uned Acíwt Iechyd Meddwl i Oedolion Ysbyty Athrofaol Llandoche;
  - £5 miliwn i ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd;
  - £5 miliwn ar gyfer cam olaf Ysbyty Plant Arch Noa.

---

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [HSC4-29-13 Papur 12: Scrutiny of the Draft Budget 2014-15](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Pennod 4) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

- **£19.5 miliwn** ar gyfer y Gronfa Technoleg Iechyd a Thelefeddygaeth. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau cyfalaf mewnol o fewn PGG IGC.

### GRF

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae GRF ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £47.3 miliwn, neu 22.2%. Mae'r gostyngiad hwn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf ar gyfer gofynion GRF.

**Tabl 11: Newidiadau i PGG IGC ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Maes Rhaglen Wariant (MRHW)	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014- 15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cant
<b>TGA REFENIW</b>				
Cyflenwi'r GIG <sup>1</sup>	5,477,235	5,659,766	182,531	3.3
Cyllidebau Iechyd Canolog	228,179	222,030	-6,149	-2.7
Iechyd Cyhoeddus ac Atal	158,001	158,643	642	0.4
Gwasanaethau Cymdeithasol	82,085	45,979	-36,106	-44.0
CAFCASS Cymru	10,162	10,162	0	0.0
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>5,955,662</b>	<b>6,096,580</b>	<b>140,918</b>	<b>2.4</b>
<b>DEL CYFALAF</b>				
Cyflenwi'r GIG	225,275	267,775	42,500	18.9
Cyllidebau Iechyd Canolog	5,072	5,072	0	0.0
Iechyd Cyhoeddus ac Atal	4,492	4,492	0	0.0
Gwasanaethau Cymdeithasol	4,711	4,711	0	0.0
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>239,550</b>	<b>282,050</b>	<b>42,500</b>	<b>17.7</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>				
Lleihad mewn gwerthoedd a Darpariaethau'r GIG	213,428	166,095	-47,333	-22.2
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>213,428</b>	<b>166,095</b>	<b>-47,333</b>	<b>-22.2</b>
TGA refeniw	5,955,662	6,096,580	140,918	2.4
DEL cyfalaf	239,550	282,050	42,500	17.7
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>6,195,212</b>	<b>6,378,630</b>	<b>183,418</b>	<b>3.0</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	213,428	166,095	-47,333	-22.2
<b>Cyfanswm Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>6,408,640</b>	<b>6,544,725</b>	<b>136,085</b>	<b>2.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru  
1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn dileu'r trosglwyddiad o £12.2 miliwn mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.



### 3.2. Newidiadau blynyddol

**Tabl 12** - rhydd wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn PGG IGC ar lefel MRhW, gan ddangos y newidiadau blynyddol yn 2014-15 a'r newidiadau cronol yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

#### **Cyfanswm TGA**

- Yn cynyddu £196.4 miliwn neu 3.2% (cynnydd o 1.3% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £220.9 miliwn neu 3.6% (gostyngiad o 0.2% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

#### **TGA refeniw**

- yn cynyddu £156 miliwn neu 2.6% (cynnydd o 0.7% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £228 miliwn neu 3.8% (cynnydd o 0.1% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Ceir y cynnydd mwyaf mewn TGA refeniw yn 2014-15 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn MRhW Cyflenwi'r GIG, lle gwelir cynnydd o £164.9 miliwn neu 3.0%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.1%. Y prif reswm dros hyn yw'r cynnydd o £180 miliwn mewn perthynas â gwelliannau adolygiad Francis. Ceir y cynnydd mwyaf mewn TGA refeniw yn 2014-15 (mewn termau ariannol) yn MRhW Cyllidebau Canolog Iechyd, sy'n gostwng £6.9 miliwn, neu 3.0%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 4.8%. Y prif reswm dros hyn yw trosglwyddiadau i'r PGG.<sup>21</sup>

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn MRhW Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gostwng £3.2 miliwn, neu 5.9% (7.7% mewn termau real).

#### **TGA cyfalaf**

- Yn cynyddu £40.4 miliwn neu 16.7% (cynnydd o 14.5% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn gostwng £7.1 miliwn neu 2.9% (gostyngiad o 6.4% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Mae'r newid mewn TGA cyfalaf yn 2014-15 yn MRhW Cyflenwi'r GIG, sy'n cyfrif am y cynnydd cyfan mewn TGA cyfalaf. Y prif reswm dros hyn yw'r dyraniadau ychwanegol a nodwyd uchod.

---

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [HSC4-29-13 Papur 12: Scrutiny of the Draft Budget 2014-15](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

## **GRF**

- Yn cynyddu £29.2 miliwn neu 21.3% (cynnydd o 19.1% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £28.5 miliwn neu 20.8% (cynnydd o 16.5% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

**Tabl 12: Newidiadau blynyddol i PGG IGC**

Maes Rhaglen Wariant (MRHW)	Cyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2015-16	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
				£000	£000	£000	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000
<b>TGA REFENIW</b>															
Cyflenwi'r GIG <sup>1</sup>	5,494,916	5,659,766	5,704,768	164,850	3.0	45,002	0.8	209,852	3.8	59,320	1.1	-55,868	-1.0	4,493	0.1
Cyllidebau Iechyd Canolog	228,904	222,030	222,030	-6,874	-3.0	0	0.0	-6,874	-3.0	-11,014	-4.8	-3,926	-1.8	-14,867	-6.5
Iechyd Cyhoeddus ac Atal	157,392	158,643	158,643	1,251	0.8	0	0.0	1,251	0.8	-1,707	-1.1	-2,805	-1.8	-4,460	-2.8
Gwasanaethau Cymdeithasol	49,179	45,979	72,979	-3,200	-6.5	27,000	58.7	23,800	48.4	-4,057	-8.3	25,710	55.9	21,173	43.1
CAFCASS Cymru	10,162	10,162	10,162	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-189	-1.9	-180	-1.8	-366	-3.6
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>5,940,553</b>	<b>6,096,580</b>	<b>6,168,582</b>	<b>156,027</b>	<b>2.6</b>	<b>72,002</b>	<b>1.2</b>	<b>228,029</b>	<b>3.8</b>	<b>42,352</b>	<b>0.7</b>	<b>-37,069</b>	<b>-0.6</b>	<b>5,974</b>	<b>0.1</b>
<b>DEL CYFALAF</b>															
Cyflenwi'r GIG	227,375	267,775	220,275	40,400	17.8	-47,500	-17.7	-7,100	-3.1	35,407	15.6	-51,395	-19.2	-15,029	-6.6
Cyllidebau Iechyd Canolog	5,072	5,072	5,072	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-95	-1.9	-90	-1.8	-183	-3.6
Iechyd Cyhoeddus ac Atal	4,492	4,492	4,492	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-84	-1.9	-79	-1.8	-162	-3.6
Gwasanaethau Cymdeithasol	4,711	4,711	4,711	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-88	-1.9	-83	-1.8	-170	-3.6
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>241,650</b>	<b>282,050</b>	<b>234,550</b>	<b>40,400</b>	<b>16.7</b>	<b>-47,500</b>	<b>-16.8</b>	<b>-7,100</b>	<b>-2.9</b>	<b>35,141</b>	<b>14.5</b>	<b>-51,647</b>	<b>-18.3</b>	<b>-15,543</b>	<b>-6.4</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>															
Lleihad mewn gwerthoedd a Darpariaethau'r GIG	136,890	166,095	165,400	29,205	21.3	-695	-0.4	28,510	20.8	26,108	19.1	-3,620	-2.2	22,556	16.5
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>136,890</b>	<b>166,095</b>	<b>165,400</b>	<b>29,205</b>	<b>21.3</b>	<b>-695</b>	<b>-0.4</b>	<b>28,510</b>	<b>20.8</b>	<b>26,108</b>	<b>19.1</b>	<b>-3,620</b>	<b>-2.2</b>	<b>22,556</b>	<b>16.5</b>
<b>TGA refeniw</b>															
DEL cyfalaf	241,650	282,050	234,550	40,400	16.7	-47,500	-16.8	-7,100	-2.9	35,141	14.5	-51,647	-18.3	-15,543	-6.4
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>6,182,203</b>	<b>6,378,630</b>	<b>6,403,132</b>	<b>196,427</b>	<b>3.2</b>	<b>24,502</b>	<b>0.4</b>	<b>220,929</b>	<b>3.6</b>	<b>77,493</b>	<b>1.3</b>	<b>-88,716</b>	<b>-1.4</b>	<b>-9,569</b>	<b>-0.2</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol</b>															
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	136,890	166,095	165,400	29,205	21.3	-695	-0.4	28,510	20.8	26,108	19.1	-3,620	-2.2	22,556	16.5
<b>Cyfanswm Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>6,319,093</b>	<b>6,544,725</b>	<b>6,568,532</b>	<b>225,632</b>	<b>3.6</b>	<b>23,807</b>	<b>0.4</b>	<b>249,439</b>	<b>3.9</b>	<b>103,601</b>	<b>1.6</b>	<b>-92,336</b>	<b>-1.4</b>	<b>12,986</b>	<b>0.2</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn dileu'r trosglwyddiad o £12.2 miliwn mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.

#### 4. Llywodraeth Leol (LIL)

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol<sup>22</sup> ar gyfer PGG LIL, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ers cynlluniau dangosol o'r llynedd, ac yn crynhoi'r newidiadau blynyddol mwyaf yng nghamau gweithredu/MRhWau y PGG.

Mae PGG LIL yn cyfrif am **30 y cant** o gyfanswm dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru yn 2014-15.

##### *4.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

**Tabl 13** - dengys ddyraniadau yn PGG LIL ar lefel MRhW o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14) a sut mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

##### ***Cyfanswm TGA***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae cyfanswm TGA ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £95.9 miliwn, neu 2.0%.

Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Cynnydd o £64.6 miliwn yn 2014-15 o ganlyniad i drosglwyddiadau â PGGau eraill;
- Dyraniadau ychwanegol o £35 miliwn yn 2014/15 ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol; felly
- Rhaid i'r cynnydd hwn o £99.6 miliwn gael ei wrthbwyso gan ostyngiad o £195.5 miliwn er mwyn rhoi cyfanswm cyffredinol o £95.9 miliwn mewn gostyngiad TGA.

##### ***TGA refeniw***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA refeniw ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £95.9 miliwn, neu 2.1%. Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Trosglwyddiadau i mewn i gam gweithredu Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol yn MRhW Ariannu Llywodraeth Leol:
  - £36.1 miliwn o PGG IGC. Mae hyn yn cynrychioli cyfuno'r Grant Anableddau Dysgu (£32.9 miliwn) a'r Pecyn Camau Cyntaf (£3.2 miliwn) yn y grant cymorth refeniw (GCR).

---

<sup>22</sup> Noder na fydd y ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon bob amser yn creu cyfansymiau, am fod ffigurau yn cael eu talgrynnu er hwylustod.

- £28.6 miliwn o'r PGG Addysg a Sgiliau. Mae hyn yn cynrychioli £4.2 miliwn ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd a £24.4 miliwn ar gyfer ysgolion arbennig ôl-16 a lleoliadau AAA y tu allan i'r sir yn cael eu cyfuno yn y GCR.
- Trosglwyddiadau o £0.15 miliwn allan i PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â Phanel Dyfarnu Cymru.<sup>23</sup>
- Dyranriad ychwanegol o £35 miliwn i gam gweithredu'r Gronfa Gofal Canolraddol yn MRhW Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth.

Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol hefyd yn nodi:

Ceir rhai trosglwyddiadau o fewn y PGG hefyd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â chynllun busnes yr Adran, ac er mwyn dod â chyllidebau sy'n canolbwyntio ar Lywodraeth Leol a gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd.<sup>24</sup>

Mae'r trosglwyddiadau a'r dyraniadau ychwanegol a nodwyd uchod yn rhoi cynnydd net o £99.6 miliwn, **y mae'n rhaid iddo gael ei wrthbwyso gan ostyngiad o £195.5 miliwn er mwyn rhoi gostyngiad TGA refeniw cyffredinol o £95.9 miliwn.** Ni chaiff manylion unrhyw ostyngiadau o'r fath eu nodi'n glir yn nogfennau'r gyllideb, nac ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, gan fod £64.7 miliwn wedi'i drosglwyddo i'r GCR yng nghanam gweithredu Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol MRhW Ariannu Llywodraeth Leol, a bod y tablau gweithredu yn nodi gostyngiad o £127.7 miliwn o ran y cam gweithredu hwn, yna mae'n rhaid bod y cam gweithredu hwn wedi gweld gostyngiad cyffredinol o £192.4 miliwn. Byddai hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r gostyngiad yn y PGG hwn wedi dod o'r GCR.

Dengys Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2014-15 fod gostyngiad o £153 miliwn yn ddyledus i awdurdodau lleol o ran cyfanswm y cyllid allanol cronol (CAC) o gymharu â 2013-14.<sup>25</sup> Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid amcangyfrifodd CLILC fod y diffyg gwirioneddol i'w fodloni gan lywodraeth leol yn 2014-15 oddeutu £400 miliwn.<sup>26</sup>

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, [CELG\(4\) Papur 1: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15 - y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, [CELG\(4\) - 27-13 Papur 1: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15 - y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths (Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth), Datganiad (Ysgrifenedig) y Cabinet, [Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2014-15](#), 16 Hydref 2013 [cyrchwyd 18 Hydref 2013] [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>26</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 17 Hydref 2013 [dim dolen ar gael ar adeg ysgrifennu]

Mae'r setliad dros dro hefyd yn dangos bod y cyfanswm a ddarparwyd mewn perthynas â'r Cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor yn £244 miliwn yn 2014-15. Trosglwyddodd Llywodraeth y DU £222 miliwn ar gyfer hyn,<sup>27</sup> sy'n awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £22 miliwn o gymorth ariannol ar gyfer hyn, sy'n debyg i lefel 2013-14.<sup>28</sup>

### ***TGA cyfalaf***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, nid oes unrhyw newidiadau i TGA cyfalaf ar gyfer 2014-15.

### ***GRF***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, nid oes unrhyw newidiadau i GRF ar gyfer 2014-15.

## ***4.2. Newidiadau blynyddol***

**Tabl 14** - rhydd wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn PGG LIL ar lefel MRhW, gan ddangos y newidiadau blynyddol yn 2014-15 a'r newidiadau cronol yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

### ***Cyfanswm TGA***

- yn gostwng £149.5 miliwn neu 3.2% (gostyngiad o 5.0% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £255.7 miliwn neu 5.4% (gostyngiad o 8.8% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

### ***TGA refeniw***

- yn gostwng £149.5 miliwn neu 3.2% (gostyngiad o 5.0% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £255.7 miliwn neu 5.4% (gostyngiad o 8.8% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Mae'r unig gynnydd yn TGA refeniw 2014-15 yn MRhW Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth, lle gwelir cynnydd o £33.3 miliwn neu 81.5%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 78.1%. Y prif reswm dros hyn yw'r dyraniad ychwanegol o £35 miliwn yn 2014-15 mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Canolraddol.

---

<sup>27</sup> Fel y nodwyd yn [Atodiad C i'r Gyllideb Ddrafft 2014-15](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 18 Hydref 2013]

<sup>28</sup> Fel y trafodwyd gyda'r Gweinidog Cyllid ar adeg Cyllideb Atodol 2013-14. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [\[paragraffau 31-38\]](#) 4 Gorffennaf 2013 [cyrchwyd 18 Hydref 2013]

Tabl 13: Newidiadau i PGG LIL ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14

Maes Rhaglen Wariant (MRhW)	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014- 15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cart
<b>TGA REFENIW</b>				
Cyllid Llywodraeth Leol <sup>1</sup>	4,574,147	4,446,235	-127,912	-2.8
Cymunedau Mwy Diogel	16,701	16,365	-336	-2.0
Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth	40,979	74,077	33,098	80.8
Yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol	14,461	14,461	0	0.0
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	2,591	2,591	0	0.0
Estyn	12,364	11,664	-700	-5.7
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>4,661,243</b>	<b>4,565,393</b>	<b>-95,850</b>	<b>-2.1</b>
<b>DEL CYFALAF</b>				
Cyllid Llywodraeth Leol	20,000	20,000	0	0.0
Cymunedau Mwy Diogel	2,639	2,639	0	0.0
Estyn	281	281	0	0.0
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>22,920</b>	<b>22,920</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>				
Cyllid Llywodraeth Leol	24,488	24,488	0	0.0
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>24,488</b>	<b>24,488</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>
TGA refeniw	4,661,243	4,565,393	-95,850	-2.1
DEL cyfalaf	22,920	22,920	0	0.0
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>4,684,163</b>	<b>4,588,313</b>	<b>-95,850</b>	<b>-2.0</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	24,488	24,488	0	0.0
<b>CYFANSWM Llywodraeth Leol</b>	<b>4,708,651</b>	<b>4,612,801</b>	<b>-95,850</b>	<b>-2.0</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru  
1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn ychwanegu'r trosglwyddiad i mewn o £220 miliwn mewn perthynas â dileu budd-dal y dreth gyngor a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yng ngham gweithredu Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol MRhW Ariannu Llywodraeth Leol, lle gwelir gostyngiad o £182.1 miliwn neu 3.9%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 5.7%. Y prif reswm dros hyn yw'r gostyngiad yn y GCR a wrthbwyswyd gan drosglwyddiadau, fel y trafodwyd uchod.

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yng ngham gweithredu/MRhW Estyn, lle gwelir gostyngiad o £0.7 miliwn, neu 5.7%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 7.4%. Ni roddir unrhyw esboniad am hyn.

### ***TGA cyfalaf***

- Nid oes unrhyw newidiadau i TGA cyfalaf rhwng 2013-14 a 2014-15, sy'n cynrychioli gostyngiad o 1.9% mewn termau real.
- Nid oes unrhyw newidiadau i TGA cyfalaf yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16), sy'n cynrychioli gostyngiad o 3.6% mewn termau real.

### ***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)***

- yn cynyddu £2.6 miliwn neu 12.0% (cynnydd o 10% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £2.6 miliwn neu 12.0% (cynnydd o 8.0% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).



**Tabl 14: Newidiadau blynyddol i PGG LIL**

Maes Rhaglen Wariant (MRHW)	Cyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2015-16	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013- 14 i 2015-16		Newid termau real 2013- 14 i 2014-15		Newid termau real 2014- 15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
	£000	£000	£000	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
<b>TGA REFENIW</b>															
Cyllid Llywodraeth Leol <sup>1</sup>	4,628,294	4,446,235	4,376,155	-182,059	-3.9	-70,080	-1.6	-252,139	-5.4	-264,962	-5.7	-147,458	-3.3	-409,671	-8.9
Cymunedau Mwy Diogel	16,373	16,365	16,252	-8	-0.0	-113	-0.7	-121	-0.7	-313	-1.9	-400	-2.4	-706	-4.3
Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth	40,825	74,077	38,108	33,252	81.5	-35,969	-48.6	-2,717	-6.7	31,871	78.1	-36,643	-49.5	-4,089	-10.0
Yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol	14,461	14,461	14,461	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-270	-1.9	-256	-1.8	-521	-3.6
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	2,591	2,591	2,591	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-48	-1.9	-46	-1.8	-93	-3.6
Estyn	12,364	11,664	11,664	-700	-5.7	0	0.0	-700	-5.7	-917	-7.4	-206	-1.8	-1,120	-9.1
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>4,714,908</b>	<b>4,565,393</b>	<b>4,459,231</b>	<b>-149,515</b>	<b>-3.2</b>	<b>-106,162</b>	<b>-2.3</b>	<b>-255,677</b>	<b>-5.4</b>	<b>-234,640</b>	<b>-5.0</b>	<b>-185,009</b>	<b>-4.1</b>	<b>-416,199</b>	<b>-8.8</b>
<b>DEL CYFALAF</b>															
Cyllid Llywodraeth Leol	20,000	20,000	20,000	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-373	-1.9	-354	-1.8	-720	-3.6
Cymunedau Mwy Diogel	2,639	2,639	2,639	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-49	-1.9	-47	-1.8	-95	-3.6
Estyn	281	281	281	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-5	-1.9	-5	-1.8	-10	-3.6
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>22,920</b>	<b>22,920</b>	<b>22,920</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>-427</b>	<b>-1.9</b>	<b>-405</b>	<b>-1.8</b>	<b>-825</b>	<b>-3.6</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>															
Cyllid Llywodraeth Leol	21,856	24,488	24,488	2,632	12.0	0	0.0	2,632	12.0	2,175	10.0	-433	-1.8	1,750	8.0
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>21,856</b>	<b>24,488</b>	<b>24,488</b>	<b>2,632</b>	<b>12.0</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>	<b>2,632</b>	<b>12.0</b>	<b>2,175</b>	<b>10.0</b>	<b>-433</b>	<b>-1.8</b>	<b>1,750</b>	<b>8.0</b>
TGA refeniw	4,714,908	4,565,393	4,459,231	-149,515	-3.2	-106,162	-2.3	-255,677	-5.4	-234,640	-5.0	-185,009	-4.1	-416,199	-8.8
DEL cyfalaf	22,920	22,920	22,920	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-427	-1.9	-405	-1.8	-825	-3.6
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>4,737,828</b>	<b>4,588,313</b>	<b>4,482,151</b>	<b>-149,515</b>	<b>-3.2</b>	<b>-106,162</b>	<b>-2.3</b>	<b>-255,677</b>	<b>-5.4</b>	<b>-235,067</b>	<b>-5.0</b>	<b>-185,414</b>	<b>-4.0</b>	<b>-417,024</b>	<b>-8.8</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	21,856	24,488	24,488	2,632	12.0	0	0.0	2,632	12.0	2,175	10.0	-433	-1.8	1,750	8.0
<b>CYFANSWM Llywodraeth Leol</b>	<b>4,759,684</b>	<b>4,612,801</b>	<b>4,506,639</b>	<b>-146,883</b>	<b>-3.1</b>	<b>-106,162</b>	<b>-2.3</b>	<b>-253,045</b>	<b>-5.3</b>	<b>-232,892</b>	<b>-4.9</b>	<b>-185,847</b>	<b>-4.0</b>	<b>-415,274</b>	<b>-8.7</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn ychwanegu'r trosglwyddiad i mewn o £222 miliwn mewn perthynas â dileu budd-dal y dreth gyngor a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.

## 5. Cymunedau a Threchu Tlodi (CThT)

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol<sup>29</sup> ar gyfer PGG CThT, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ers cynlluniau dangosol o'r llynedd, ac yn crynhoi'r newidiadau blynyddol mwyaf yng nghamau gweithredu/MRhwau y PGG.

Mae PGG CThT yn cyfrif am **1.4%** o gyfanswm dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

### 5.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol

**Tabl 15** - dengys ddyraniadau yn PGG CThT ar lefel MRhw o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14) a sut mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

#### **Cyfanswm DEL**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae cyfanswm TGA ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £0.4 miliwn, neu 0.2%.

Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- dyraniad ychwanegol o £4 miliwn o gyfalaf; felly
- Rhaid i'r cynnydd hwn o £4 miliwn gael ei wrthbwyso gan ostyngiad o £3.6 miliwn er mwyn rhoi cyfanswm cyffredinol o £0.4 miliwn mewn cynnydd TGA.

#### **TGA refeniw**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA refeniw ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £3.6 miliwn, neu 1.9%. Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Gostyngiad o £1.9 miliwn (1.5%) yn MRhw Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc<sup>30</sup> yn dangos newidiadau refeniw fel a ganlyn:
  - Gostyngiad o £0.9 miliwn o Linell Wariant yn y Gyllideb (LIWG) Dechrau'n Deg. Nid yw hyn yn cynnwys gostyngiad yn nyranid y grant Dechrau'n Deg i awdurdodau lleol ac mae wedi deillio o arbedion mewn costau gweinyddol (£0.4 miliwn) a dull asesu mwy effeithiol (gan arbed £0.5 miliwn).

---

<sup>29</sup> Noder na fydd y ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon bob amser yn creu cyfansymiau, am fod ffigurau yn cael eu talgrynnu er hwylustod.

<sup>30</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15, [Papur 1 Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

- Gostyngiad o £0.7 miliwn o linell wariant yn y gyllideb (LIWG) Teuluoedd yn Gyntaf.<sup>31</sup> Cyflawnir hyn hefyd heb fod unrhyw ostyngiad yn y grant Teuluoedd yn Gyntaf ac y gellir cyflawni arbedion o wariant arfaethedig ar feysydd polisi nas datblygwyd yn llawn neu gellir eu gohirio nes i adnoddau fod ar gael.
- Gostyngiad o £0.5 miliwn o LIWG Cefnogi Hawliau Plant. Mae hyn o ganlyniad i arian nas neilltuwyd o brosiectau cynharach sydd wedi dod i ben ac nad yw wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Nodir na fydd y gostyngiad hwn yn amharu ar y broses o weithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) nac ar ddyletswyddau Gweinidogion i roi blaenoriaeth i hawliau plant.
- Cynnydd o £0.2 miliwn i LIWG Eiriolaeth er mwyn ymdrin â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n ffonio'r llinell gymorth Eiriolaeth, Cyngor a Gwybodaeth.
- Gostyngiad o £1.7 miliwn (2.6%) yn MRhW Cefnogi Cymunedau a Phobl. O'r tablau gweithredu<sup>32</sup> gellir gweld y canlynol:
  - mae £0.7 miliwn wedi'i ostwng o gam gweithredu'r Trydydd Sector;
  - mae £1 filiwn wedi'i ostwng o gam gweithredu Trechu Tlodi. Yn ôl papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, daw £0.8m o hyn o LIWG Cymunedau yn Gyntaf a daw £0.2 miliwn o LIWG Cynhwysiant Ariannol.<sup>33</sup>

### **TGA cyfalaf**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA cyfalaf ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £4 miliwn (24.3%), sydd wedi'i ddyrannu i LIWG Dechrau'n Deg ym MRhW Cymunedau a Threchu Tlodi.<sup>34</sup> Gwnaed y dyraniad hwn yn unol â'r CBSC.<sup>35</sup>

---

<sup>31</sup> **Llinell wariant y gyllideb (LIWG)** - Rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl categori at ddibenion monitro a rheoli. LIWGau yw'r lefel islaw camau gweithredu, ac nis nodir yn nogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd. Yn aml fe'u nodir mewn papurau Gweinidogol i Bwyllgorau wrth graffu ar y gyllideb ddrafft, fel bod modd ystyried cyllidebau portffolio yn fanylach.

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15 Dyraniadau Gwariant](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, [CELG\(4\)-28-13 Papur 1: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015 - Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>34</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15, [Papur 1 Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Pennod 4) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

**Tabl 15: Newidiadau i PGG CThT ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Maes Rhaglen Wariant (MRhW)	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014- 15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cart
<b>TGA REFENIW</b>				
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	127,538	125,613	-1,925	-1.5
Cefnogi Cymunedau a Phobl <sup>1</sup>	65,712	64,012	-1,700	-2.6
Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb	2,621	2,621	0	0.0
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>195,871</b>	<b>192,246</b>	<b>-3,625</b>	<b>-1.9</b>
<b>DEL CYFALAF</b>				
Cymunedau a Threchu Tlodi	16,450	20,450	4,000	24.3
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>16,450</b>	<b>20,450</b>	<b>4,000</b>	<b>24.3</b>
TGA refeniw	195,871	192,246	-3,625	-1.9
DEL cyfalaf	16,450	20,450	4,000	24.3
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>212,321</b>	<b>212,696</b>	<b>375</b>	<b>0.2</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	0	0	0	0.0
<b>CYFANSWM Cymunedau a Threchu Tlodi</b>	<b>212,321</b>	<b>212,696</b>	<b>375</b>	<b>0.2</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru  
 1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn ychwanegu'r trosglwyddiad i mewn o £12.363 miliwn mewn perthynas â dileu'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.

## 5.2. Newidiadau blynyddol

**Tabl 16** - rhydd wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn PGG CThT ar lefel MRhW, gan ddangos y newidiadau blynyddol yn 2014-15 a'r newidiadau cronol yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

### Cyfanswm TGA

- yn cynyddu £0.7 miliwn neu 0.3% (gostyngiad o 1.5% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £6 miliwn neu 2.8% (gostyngiad o 6.3% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

### **TGA refeniw**

- yn cynyddu £4.7 miliwn neu 2.5% (cynnydd o 0.6% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn cynyddu £4 miliwn neu 2.1% (gostyngiad o 1.6% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Mae'r unig gynnydd yn TGA refeniw 2014-15 yn MRhW/cam gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd lle gwelir cynnydd o £8.1 miliwn neu 6.9%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.9%. Mae'n debyg mai'r rheswm dros hyn yw trosglwyddo £12.4 miliwn o Lywodraeth y DU mewn perthynas â dileu'r Gronfa Gymdeithasol Ddewisol,<sup>36</sup> wedi'i wrthbwysu gan y gostyngiad refeniw a nodwyd uchod.

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yn MRhW Cefnogi Cymunedau a Phobl, lle gwelir gostyngiad o £3.1 miliwn, neu 4.6%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 6.4%. Mae'n debyg mai'r gostyngiadau a nodwyd uchod sy'n rhannol gyfrifol am hyn.

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yng ngham gweithredu/MRhW Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb, lle gwelir gostyngiad o £0.3 miliwn, neu 10.3%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 11.9%. Ni roddir unrhyw esboniad am hyn.

### **TGA cyfalaf**

- yn gostwng £4 miliwn neu 16.4% (gostyngiad o 17.9% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £10 miliwn neu 40.9% yn ystod cyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16), sy'n cynrychioli gostyngiad o 43.0% mewn termau real.

Mae'r gostyngiad cyfan o £4 miliwn yn y gyllideb TGA cyfalaf yng ngham gweithredu/MRhW Cymunedau a Threchu Tlodi, sy'n cynrychioli gostyngiad o 16.4% yn yr MRhW hwn o gymharu â 2013-14. Ni roddir unrhyw esboniad am y gostyngiad hwn, ond o ystyried y dyraniad ychwanegol o £4 miliwn a nodwyd uchod; mae'n rhaid ei fod yn golygu bod gostyngiadau mwy wedi gwrthbwysu effaith y dyraniad ychwanegol hwn.

---

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Atodiad C) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

**Tabl 16: Newidiadau blynyddol i PGG CThT**

Maes Rhaglen Wariant (MRhw)	Cyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Cyllideb Ddrafft ddangoso l 2015-16	Newid 2013-14 i 2014- 15		Newid 2014-15 i 2015- 16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013- 14 i 2015-16	
	£000	£000	£000	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
<b>TGA REFENIW</b>															
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	117,538	125,613	127,413	8,075	6.9	1,800	1.4	9,875	8.4	5,733	4.9	-453	-0.4	5,288	4.5
Cefnogi Cymunedau a Phobl <sup>1</sup>	67,097	64,012	61,500	-3,085	-4.6	-2,512	-3.9	-5,597	-8.3	-4,279	-6.4	-3,599	-5.6	-7,811	-11.6
Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb	2,921	2,621	2,621	-300	-10.3	0	0.0	-300	-10.3	-349	-11.9	-46	-1.8	-394	-13.5
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>187,556</b>	<b>192,246</b>	<b>191,534</b>	<b>4,690</b>	<b>2.5</b>	<b>-712</b>	<b>-0.4</b>	<b>3,978</b>	<b>2.1</b>	<b>1,105</b>	<b>0.6</b>	<b>-4,099</b>	<b>-2.1</b>	<b>-2,917</b>	<b>-1.6</b>
<b>DEL CYFALAF</b>															
Cymunedau a Threchu Tlodi	24,450	20,450	14,450	-4,000	-16.4	-6,000	-29.3	-10,000	-40.9	-4,381	-17.9	-6,256	-30.6	-10,520	-43.0
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>24,450</b>	<b>20,450</b>	<b>14,450</b>	<b>-4,000</b>	<b>-16.4</b>	<b>-6,000</b>	<b>-29.3</b>	<b>-10,000</b>	<b>-40.9</b>	<b>-4,381</b>	<b>-17.9</b>	<b>-6,256</b>	<b>-30.6</b>	<b>-10,520</b>	<b>-43.0</b>
TGA refeniw	187,556	192,246	191,534	4,690	2.5	-712	-0.4	3,978	2.1	1,105	0.6	-4,099	-2.1	-2,917	-1.6
DEL cyfalaf	24,450	20,450	14,450	-4,000	-16.4	-6,000	-29.3	-10,000	-40.9	-4,381	-17.9	-6,256	-30.6	-10,520	-43.0
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>212,006</b>	<b>212,696</b>	<b>205,984</b>	<b>690</b>	<b>0.3</b>	<b>-6,712</b>	<b>-3.2</b>	<b>-6,022</b>	<b>-2.8</b>	<b>-3,276</b>	<b>-1.5</b>	<b>-10,354</b>	<b>-4.9</b>	<b>-13,437</b>	<b>-6.3</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	0	0	0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
<b>CYFANSWM Cymunedau a Threchu Tlodi</b>	<b>212,006</b>	<b>212,696</b>	<b>205,984</b>	<b>690</b>	<b>0.3</b>	<b>-6,712</b>	<b>-3.2</b>	<b>-6,022</b>	<b>-2.8</b>	<b>-3,276</b>	<b>-1.5</b>	<b>-10,354</b>	<b>-4.9</b>	<b>-13,437</b>	<b>-6.3</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn ychwanegu'r trosglwyddiad i mewn o £12.363 miliwn mewn perthynas â dileu'r Gronfa Gyndeithasol ddewisol a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.

## 6. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (EGTh)

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol<sup>37</sup> ar gyfer PGG EGTh, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ers cynlluniau dangosol o'r llynedd, ac yn crynhoi'r newidiadau blynyddol mwyaf yng nghamau gweithredu/MRhWau y PGG.

Mae PGG EGTh yn cyfrif am **6.1%** o gyfanswm dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru yn 2014-15.

### 6.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol

**Tabl 17** - dengys ddyraniadau yn PGG EGTh ar lefel MRhW o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14) a sut mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

#### **Cyfanswm TGA**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae cyfanswm TGA ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £37.1 miliwn, neu 4.2%.

Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Gostyngiadau refeniw o £26.9 miliwn;
- Dyraniadau cyfalaf ychwanegol o £64 miliwn.

#### **TGA refeniw**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA refeniw ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £26.9 miliwn, neu 5.0%. Ymhlith y newidiadau mae:

- Trosglwyddiad cylchol o £1.2 miliwn i PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (GCG) o gam gweithredu'r Sectorau yn MRhW Sectorau a Busnes, sy'n ymwneud â chostau swyddfydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes<sup>38</sup> yn nodi gostyngiadau refeniw i gyllidebau'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Fodd bynnag, nodir y rhain mewn cymhariaeth â dyraniadau 2013-14 (a drafodir yn yr adran isod ac felly ni all newidiadau i gynlluniau dangosol 2014-15 gael eu nodi o'r papur hwn.

Fodd bynnag, o **dabl 17** isod, gellir gweld gostyngiadau refeniw i bob MRhW o gymharu â chynlluniau dangosol 2014-15. Mae hyn yn creu cyfanswm o £26.9 miliwn, gan gynnwys y trosglwyddiad i PGG GCG a nodwyd uchod, gan olygu bod yn rhaid bod gostyngiadau refeniw pellach o £25.7 miliwn.

<sup>37</sup> Noder na fydd y ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon bob amser yn creu cyfansymiau, am fod ffigurau yn cael eu talgrynnu er hwylustod.

<sup>38</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [EBC\(4\)-38-13\(p4\) – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

## **TGA cyfalaf**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA cyfalaf ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £64 miliwn (18.2%). Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- £55.7 miliwn i gefnogi prosiectau CBSC,<sup>39</sup> gan gynnwys:
  - £28.7 miliwn mewn perthynas â Thrafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru. Mae £18.9 miliwn o hyn yn mynd tuag at MRhW Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd ac mae £9.8 miliwn yn mynd tuag at gam gweithredu/MRhG Teithio Cynaliadwy.
  - £10 miliwn i Ailadeiladu Twneli Brynglas ar yr M4 sydd wedi mynd tuag at gam gweithredu/MRhW gweithrediadau Priffyrdd a Chefnffyrdd.
  - £5 miliwn i Wella Cadernid Llwybrau Twneli a Diogelwch Bywyd ar yr A55, sydd wedi mynd tuag at gam gweithredu/MRhW Gweithrediadau Priffyrdd a Chefnffyrdd.
  - £12 miliwn ar gyfer cronfeydd Buddsoddi BBaChau fel bod modd cefnogi mynediad at gyllid. Mae'r arian hwn ar ffurf trafodion ariannol,<sup>40</sup> ac mae'n mynd tuag at Gronfa Cyllid Cymru yng nghanam gweithredu Sectorau MRhW Sectorau a Busnes.
- £8.3 miliwn i gefnogi estyniad rheilffordd a gorsaf tref Glynebwy, sydd wedi mynd tuag at gam gweithredu/MRhW Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd.

## **GRF**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, nid oes unrhyw newidiadau i GRF ar gyfer 2014-15.

---

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Pennod 4) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>40</sup> O'r cyfalaf ychwanegol a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft hon, dim ond ar gyfer trafodion ariannol (buddsoddiadau ecwiti a benthyciadau) y gellir defnyddio peth ohono oherwydd amodau a bennwyd gan Drysorlys EM. Nodir hyn yn [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Pennod 4, tudalennau 21-22) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]



**Tabl 17: Newidiadau i PGG EGTh ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Maes Rhaglen Wariant (MRHW)	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014- 15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cant
<b>TGA REFENIW</b>				
Sectorau a Busnes	53,129	51,065	-2,064	-3.9
Gwyddoniaeth ac Arloesi	14,895	13,202	-1,693	-11.4
Prif Ddigidwyddiadau	4,740	4,456	-284	-6.0
Seilwaith	22,171	19,446	-2,725	-12.3
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	10,060	9,413	-647	-6.4
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd	173,574	170,146	-3,428	-2.0
Gwasanaethau Rheilffordd ac Awyr	173,179	163,968	-9,211	-5.3
Teithio Cynaliadwy	83,685	77,304	-6,381	-7.6
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	4,713	4,243	-470	-10.0
<b>CYFANSWM Refeniw</b>	<b>540,146</b>	<b>513,243</b>	<b>-26,903</b>	<b>-5.0</b>
<b>DEL CYFALAF</b>				
Sectorau a Busnes	66,144	78,144	12,000	18.1
Gwyddoniaeth ac Arloesi	11,979	11,979	0	0.0
Seilwaith	28,456	28,456	0	0.0
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	68	68	0	0.0
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd	63,204	71,450	8,246	13.0
Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd	121,046	151,766	30,720	25.4
Teithio Cynaliadwy	39,532	52,566	13,034	33.0
Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol	13,667	13,667	0	0.0
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	6,900	6,900	0	0.0
<b>CYFANSWM Cyfalaf</b>	<b>350,996</b>	<b>414,996</b>	<b>64,000</b>	<b>18.2</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>				
Seilwaith	20,000	20,000	0	0.0
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd	28,946	28,946	0	0.0
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>48,946</b>	<b>48,946</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>
TGA refeniw	540,146	513,243	-26,903	-5.0
DEL cyfalaf	350,996	414,996	64,000	18.2
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>891,142</b>	<b>928,239</b>	<b>37,097</b>	<b>4.2</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	48,946	48,946	0	0.0
<b>CYFANSWM yr Amgylchedd, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth</b>	<b>940,088</b>	<b>977,185</b>	<b>37,097</b>	<b>3.9</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

## 6.2. Newidiadau blynyddol

**Tabl 18** - rhydd wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn PGG EGTh ar lefel MRhW, gan ddangos y newidiadau blynyddol yn 2014-15 a'r newidiadau cronol yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

### **Cyfanswm TGA**

- yn cynyddu £75.6 miliwn neu 8.9% (cynnydd o 6.8% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn cynyddu £70.8 miliwn neu 8.3% (cynnydd o 4.4% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

### **TGA refeniw**

- yn gostwng £22 miliwn neu 4.1% (gostyngiad o 5.9% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £30.2 miliwn neu 5.6% (gostyngiad o 9.0% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Yn ei phapur i'r Pwyllgor Menter a Busnes,<sup>41</sup> mae'r Gweinidog yn nodi'r gostyngiadau canlynol mewn refeniw yn 2014-15 o gymharu â 2013-14:

- Gostyngiad o £3.3 miliwn i gyllideb refeniw yr Economi a Gwyddoniaeth. Bwriedir cyflawni hyn drwy arbedion effeithlonrwydd, ailflaenoriaethu ac ailbroffilio ymrwymadau.
- Gostyngiad o £18.7 miliwn i gyllideb refeniw Trafnidiaeth. Mae papur y Gweinidog yn nodi bod y gyllideb trafndiaeth yn heriol gan ei bod yn cynnwys sawl trefniant cytundebol hirdymor, a bod negodiadau ar waith i geisio cyflawni arbedion heb effeithio ar lefelau gwasanaeth.

Nid oes unrhyw gynnydd yn TGA refeniw 2014-15 o gymharu â 2013-14.

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yn MRhW/cam gweithredu Gwasanaethau Awyr a Rheilffyrdd, lle gwelir gostyngiad o £9.2 miliwn, neu 5.3%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 7.1%. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn nodi bod hyn yn cynrychioli amcangyfrif cynnar o

---

<sup>41</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [EBC\(4\)-38-13\(p4\) – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

arbedion posibl, er y bydd yn gofyn am gryn negodi â darparwyr gwasanaethau a Llywodraeth y DU.<sup>42</sup>

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yng ngham gweithredu/MRhW Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd, lle gwelir gostyngiad o £0.5 miliwn, neu 10.0%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 11.7%. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn nodi bod hyn wedi cael ei gyflawni drwy arbedion effeithlonrwydd a nodwyd mewn trefniadau ariannu â sefydliadau partner.<sup>43</sup>

### ***TGA cyfalaf***

- yn cynyddu £97.7 miliwn neu 30.8% (cynnydd o 28.3% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn cynyddu £101 miliwn neu 31.8% (cynnydd o 27.1% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Ceir y cynnydd ariannol mwyaf mewn TGA cyfalaf 2014-15 yn MRhW Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd, lle gwelir cynnydd o £41.9 miliwn neu 38.1%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 35.5%. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn nodi bod hyn yn cynrychioli rhai o'r dyraniadau ychwanegol a nodwyd uchod, yn ogystal ag ail-flaenoriaethu o fewn cyllidebau presennol ar gyfer coridor yr M4, A465 a Ffordd Gyswllt Dwyreiniol y Bae.<sup>44</sup>

Ceir y cynnydd canrannol mwyaf yn TGA cyfalaf 2014-15 yn MRhW Gwyddoniaeth ac Arloesi, lle gwelir cynnydd o £8.4 miliwn neu dros 100 y cant. Ni roddir unrhyw fanylion am y newid hwn, ond mae'n debygol o gynrychioli'r dyraniad o £9 miliwn ar gyfer Parc Gwyddoniaeth Menai a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14 o ganlyniad i Gytundeb y Gyllideb â Phlaid Cymru.<sup>45</sup>

Yr unig ostyngiad yn TGA cyfalaf 2014-15 yw yn MRhW Seilwaith, lle gwelir gostyngiad o £8 miliwn, neu 21.9%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 23.4%. Ni roddir unrhyw fanylion am y newid hwn

---

<sup>42</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [EBC\(4\)-38-13\(p4\) – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>43</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [EBC\(4\)-38-13\(p4\) – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>44</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, [EBC\(4\)-38-13\(p4\) – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>45</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Pennod 12, tudalen 78) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

## **GRF**

- Yn cynyddu £1 miliwn neu 2.1% (cynnydd o 0.2% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £12.2 miliwn neu 25.5% (cynnydd o 21.0% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Ni roddir unrhyw fanylion am y rheswm dros y cynnydd hwn.

Tabl 18: Newidiadau blynyddol i PGG EGTh

Maes Rhaglen Wariant (MRhW)	Cyllideb Atodol	Cyllideb Ddrafft	Cyllideb Ddrafft ddangosol	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013-14 i 2015-16		Newid termau real 2013-14 i 2014-15		Newid termau real 2014-15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16	
	2013-14	2014-15	2015-16	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart
<b>TGA REFENIW</b>															
Sectorau a Busnes	51,089	51,065	48,985	-24	-0.0	-2,080	-4.1	-2,104	-4.1	-976	-1.9	-2,946	-5.8	-3,867	-7.6
Gwyddoniaeth ac Arloesi	14,269	13,202	12,882	-1,067	-7.5	-320	-2.4	-1,387	-9.7	-1,313	-9.2	-548	-4.1	-1,851	-13.0
Prif Ddigwyddiadau	4,740	4,456	4,354	-284	-6.0	-102	-2.3	-386	-8.1	-367	-7.7	-179	-4.0	-543	-11.5
Seilwaith	20,642	19,446	20,397	-1,196	-5.8	951	4.9	-245	-1.2	-1,559	-7.6	590	3.0	-979	-4.7
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	10,138	9,413	9,349	-725	-7.2	-64	-0.7	-789	-7.8	-901	-8.9	-229	-2.4	-1,126	-11.1
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd	174,212	170,146	168,998	-4,066	-2.3	-1,148	-0.7	-5,214	-3.0	-7,238	-4.2	-4,136	-2.4	-11,298	-6.5
Gwasanaethau Rheilffordd ac Awyr	173,179	163,968	160,389	-9,211	-5.3	-3,579	-2.2	-12,790	-7.4	-12,268	-7.1	-6,415	-3.9	-18,564	-10.7
Teithio Cynaliadwy	82,302	77,304	75,502	-4,998	-6.1	-1,802	-2.3	-6,800	-8.3	-6,439	-7.8	-3,137	-4.1	-9,518	-11.6
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	4,717	4,243	4,243	-474	-10.0	0	0.0	-474	-10.0	-553	-11.7	-75	-1.8	-627	-13.3
<b>CYFANSWM Refeniw</b>	<b>535,288</b>	<b>513,243</b>	<b>505,099</b>	<b>-22,045</b>	<b>-4.1</b>	<b>-8,144</b>	<b>-1.6</b>	<b>-30,189</b>	<b>-5.6</b>	<b>-31,615</b>	<b>-5.9</b>	<b>-17,075</b>	<b>-3.3</b>	<b>-48,371</b>	<b>-9.0</b>
<b>DEL CYFALAF</b>															
Sectorau a Busnes	56,519	78,144	88,633	21,625	38.3	10,489	13.4	32,114	56.8	20,168	35.7	8,922	11.4	28,923	51.2
Gwyddoniaeth ac Arloesi	3,613	11,979	2,979	8,366	231.6	-9,000	-75.1	-634	-17.5	8,143	225.4	-9,053	-75.6	-741	-20.5
Seilwaith	36,456	28,456	18,456	-8,000	-21.9	-10,000	-35.1	-18,000	-49.4	-8,531	-23.4	-10,326	-36.3	-18,664	-51.2
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	59	68	79	9	15.3	11	16.2	20	33.9	8	13.1	10	14.1	17	29.1
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd	48,551	71,450	92,550	22,899	47.2	21,100	29.5	43,999	90.6	21,567	44.4	19,464	27.2	40,667	83.8
Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd	109,916	151,766	152,166	41,850	38.1	400	0.3	42,250	38.4	39,020	35.5	-2,291	-1.5	36,772	33.5
Teithio Cynaliadwy	41,640	52,566	42,866	10,926	26.2	-9,700	-18.5	1,226	2.9	9,946	23.9	-10,458	-19.9	-317	-0.8
Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol	13,667	13,667	13,667	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-255	-1.9	-242	-1.8	-492	-3.6
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	6,900	6,900	6,900	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-129	-1.9	-122	-1.8	-248	-3.6
<b>CYFANSWM Cyfalaf</b>	<b>317,321</b>	<b>414,996</b>	<b>418,296</b>	<b>97,675</b>	<b>30.8</b>	<b>3,300</b>	<b>0.8</b>	<b>100,975</b>	<b>31.8</b>	<b>89,937</b>	<b>28.3</b>	<b>-4,096</b>	<b>-1.0</b>	<b>85,917</b>	<b>27.1</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>															
Seilwaith	20,000	20,000	20,000	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-373	-1.9	-354	-1.8	-720	-3.6
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd	27,918	28,946	40,125	1,028	3.7	11,179	38.6	12,207	43.7	488	1.7	10,470	36.2	10,763	38.6
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>47,918</b>	<b>48,946</b>	<b>60,125</b>	<b>1,028</b>	<b>2.1</b>	<b>11,179</b>	<b>22.8</b>	<b>12,207</b>	<b>25.5</b>	<b>115</b>	<b>0.2</b>	<b>10,116</b>	<b>20.7</b>	<b>10,043</b>	<b>21.0</b>
TGA refeniw	535,288	513,243	505,099	-22,045	-4.1	-8,144	-1.6	-30,189	-5.6	-31,615	-5.9	-17,075	-3.3	-48,371	-9.0
DEL cyfalaf	317,321	414,996	418,296	97,675	30.8	3,300	0.8	100,975	31.8	89,937	28.3	-4,096	-1.0	85,917	27.1
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>852,609</b>	<b>928,239</b>	<b>923,395</b>	<b>75,630</b>	<b>8.9</b>	<b>-4,844</b>	<b>-0.5</b>	<b>70,786</b>	<b>8.3</b>	<b>58,322</b>	<b>6.8</b>	<b>-21,171</b>	<b>-2.3</b>	<b>37,546</b>	<b>4.4</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	47,918	48,946	60,125	1,028	2.1	11,179	22.8	12,207	25.5	115	0.2	10,116	20.7	10,043	21.0
<b>CYFANSWM yr Amgylchedd, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth</b>	<b>900,527</b>	<b>977,185</b>	<b>983,520</b>	<b>76,658</b>	<b>8.5</b>	<b>6,335</b>	<b>0.6</b>	<b>82,993</b>	<b>9.2</b>	<b>58,438</b>	<b>6.5</b>	<b>-11,055</b>	<b>-1.1</b>	<b>47,588</b>	<b>5.3</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

## 7. Addysg a Sgiliau (AS)

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol<sup>46</sup> ar gyfer PGG AS, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ers cynlluniau dangosol o'r llynedd, ac yn crynhoi'r newidiadau blynyddol mwyaf yng nghamau gweithredu/MRhWau y PGG.

Mae PGG EGTh yn cyfrif am **11.6%** o gyfanswm dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru yn 2014-15.

### 7.1. *Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

**Tabl 19** - dengys ddyraniadau yn PGG AS ar lefel MRhW o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14) a sut mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

#### ***Cyfanswm TGA***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae cyfanswm TGA ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £77.6 miliwn, neu 4.2%.

Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Gostyngiadau refeniw o £84 miliwn a throsglwyddiadau allan o'r PGG sy'n creu cyfanswm o £28.6 miliwn, wedi'i wrthbwysu gan ddyraniad ychwanegol o £35 miliwn.

#### ***TGA refeniw***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA refeniw ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £77.6 miliwn, neu 4.6%. Ymhlith y newidiadau mae:

- Dyraniad ychwanegol o £35 miliwn i gam gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn MRhW Safonau Addysg a Hyfforddiant;
- £28.6 miliwn wedi'i drosglwyddo allan i PGG Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynrychioli £4.2 miliwn ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd, (o gam gweithredu Addysg Ôl-16 yn MRhW Safonau Addysg a Hyfforddiant) a £24.4 miliwn ar gyfer ysgolion arbennig ôl-16 a lleoliadau AAA y tu allan i'r sir (o gam gweithredu Lles Plant a Phobl Ifanc yn MRhW Gwella Lles a Lleihau Anghydraddoldebau) yn cael eu cyfuno yn y GCR.

---

<sup>46</sup> Noder na fydd y ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon bob amser yn creu cyfansymiau, am fod ffigurau yn cael eu talgrynnu er hwylustod.

- £83.9 miliwn mewn gostyngiadau refeniw ar draws y portffolio, fel y nodwyd ym mhapurau'r Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes<sup>47</sup> a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.<sup>48</sup> Nodir y ffordd y mae'r gostyngiadau hyn yn effeithio ar yr MRhWau yn [nhabl 19](#), a gellir gweld gwybodaeth fanylach ym mhapurau'r Gweinidog.<sup>49</sup>

O ran y gostyngiadau refeniw, mae papur y Gweinidog yn nodi:

Rydym wedi cynnal adolygiad fesul llinell o gyllidebau i benderfynu sut y gellir rheoli'r gostyngiadau o £83.9 miliwn yn 2014-15 a £103.9 miliwn yn 2015-16. Er bod penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud, mae'r adolygiad wedi'i osod yng nghydestun y sylw parhaus ar ein hymrwymiaid yn y Rhaglen Lywodraethu, ac mae wedi'i lunio ar sail tair thema drawsbynciol ym maes cyflenwi, sef Swyddi a Thwf; Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.<sup>50</sup>

### **TGA cyfalaf**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, nid oes unrhyw newidiadau i TGA cyfalaf ar gyfer 2014-15.

### **GRF**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae GRF ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £30.9 miliwn, neu 16.9%. Mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Benthyciadau Myfyrwyr yn nodi bod angen cynnydd o £25 miliwn yn 2014-15. Ceir hefyd GRF ychwanegol o £6 miliwn ar gyfer addasiadau pensiwn i Gyrfa Cymru, a ddaeth yn un o is-gwmnïau Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2013.<sup>51</sup>

---

<sup>47</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>48</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>49</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau](#), Hydref 2013 a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>51</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

**Tabl 19: Newidiadau i PGG AS ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14**

Maes Rhaglen Wariant (MRhw)	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014- 15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
	£000	£000	£000	y cant
<b>TGA REFENIW</b>				
Safonau Addysg a Hyfforddiant	1,209,052	1,167,519	-41,533	-3.4
Gweithlu Medrus <sup>1</sup>	76,258	69,043	-7,215	-9.5
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	382,054	354,837	-27,217	-7.1
Yr Iaith Gymraeg	25,076	24,376	-700	-2.8
Cymorth Cyflenwi	4,049	3,149	-900	-22.2
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>1,696,489</b>	<b>1,618,924</b>	<b>-77,565</b>	<b>-4.6</b>
<b>DEL CYFALAF</b>				
Sgiliau Addysg a Hyfforddiant	153,834	153,834	0	0.0
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>153,834</b>	<b>153,834</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>				
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	183,149	208,084	24,935	13.6
Gweithlu medrus	0	6,000	6,000	..
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>183,149</b>	<b>214,084</b>	<b>30,935</b>	<b>16.9</b>
TGA refeniw	1,696,489	1,618,924	-77,565	-4.6
DEL cyfalaf	153,834	153,834	0	0.0
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>1,850,323</b>	<b>1,772,758</b>	<b>-77,565</b>	<b>-4.2</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	183,149	208,084	24,935	13.6
<b>CYFANSWM Addysg a Sgiliau</b>	<b>2,033,472</b>	<b>1,980,842</b>	<b>-52,630</b>	<b>-2.6</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn dileu'r addasiad o £5 miliwn mewn perthynas â chyllid Addasu a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15



## 7.2. Newidiadau blynyddol

**Tabl 20** - rhydd wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn PGG AS ar lefel MRhW, gan ddangos y newidiadau blynyddol yn 2014-15 a'r newidiadau cronol yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

### **Cyfanswm TGA**

- yn gostwng £88 miliwn neu 4.7% (gostyngiad o 6.5% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £152.9 miliwn neu 8.2% (gostyngiad o 11.5% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

### **TGA refeniw**

- yn gostwng £39.7 miliwn neu 2.4% (gostyngiad o 4.2% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £94.6 miliwn neu 5.7% (gostyngiad o 9.1% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Ceir yr unig gynnydd mewn TGA refeniw yn 2014-15 o gymharu â 2013-14 yn MRhW Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldebau, lle gwelir cynnydd o £0.3 miliwn, neu 0.1%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 1.8.

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yn MRhW Addysg a Hyfforddiant, lle gwelir gostyngiad o £32.5 miliwn, neu 2.7%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 4.5%.

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 yn MRhW Cymorth Cyflenwi, lle gwelir gostyngiad o £0.9 miliwn, neu 22.2%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 23.7%.

### **TGA cyfalaf**

- yn gostwng £48.3 miliwn neu 23.9% (gostyngiad o 25.3% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £58.3 miliwn neu 28.8% (gostyngiad o 31.4% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Dim ond un cam gweithredu TGA cyfalaf a geir yn PGG AS, felly mae'r gostyngiad cyfan o £48.3 miliwn yn 2014-15 yng ngham gweithredu Darparu Ystadau a TG o fewn MRhW Safonau Addysg a Hyfforddiant.

## **GRF**

- Yn cynyddu £37.2 miliwn neu 21.0% (cynnydd o 18.8% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £61 miliwn neu 34.5% (cynnydd o 29.6% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

**Tabl 20: Newidiadau blynyddol i PGG AS**

Maes Rhaglen Wariant (MRHW)	Cyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2015-16	Newid 2013-14 i 2014-15		Newid 2014-15 i 2015-16		Newid cyffredinol 2013- 14 i 2015-16		Newid termau real 2013- 14 i 2014-15		Newid termau real 2014- 15 i 2015-16		Newid termau real cyffredinol 2013-14 i 2015-16		
	£000	£000	£000	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	
<b>TGA REFENIW</b>																
Safonau Addysg a Hyfforddiant	1,200,051	1,167,519	1,122,579	-32,532	-2.7	-44,940	-3.8	-77,472	-6.5	-54,301	-4.5	-64,789	-5.5	-117,882	-9.8	
Gweithlu Medrus <sup>1</sup>	74,903	69,043	70,903	-5,860	-7.8	1,860	2.7	-4,000	-5.3	-7,147	-9.5	606	0.9	-6,552	-8.7	
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	354,579	354,837	344,052	258	0.1	-10,785	-3.0	-10,527	-3.0	-6,358	-1.8	-16,868	-4.8	-22,912	-6.5	
Yr Iaith Gymraeg	25,076	24,376	23,511	-700	-2.8	-865	-3.5	-1,565	-6.2	-1,155	-4.6	-1,281	-5.3	-2,411	-9.6	
Cymorth Cyflenwi	4,049	3,149	3,049	-900	-22.2	-100	-3.2	-1,000	-24.7	-959	-23.7	-154	-4.9	-1,110	-27.4	
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>1,658,658</b>	<b>1,618,924</b>	<b>1,564,094</b>	<b>-39,734</b>	<b>-2.4</b>	<b>-54,830</b>	<b>-3.4</b>	<b>-94,564</b>	<b>-5.7</b>	<b>-69,920</b>	<b>-4.2</b>	<b>-82,486</b>	<b>-5.1</b>	<b>-150,868</b>	<b>-9.1</b>	
<b>DEL CYFALAF</b>																
Sgiliau Addysg a Hyfforddiant	202,134	153,834	143,834	-48,300	-23.9	-10,000	-6.5	-58,300	-28.8	-51,168	-25.3	-12,543	-8.2	-63,478	-31.4	
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>202,134</b>	<b>153,834</b>	<b>143,834</b>	<b>-48,300</b>	<b>-23.9</b>	<b>-10,000</b>	<b>-6.5</b>	<b>-58,300</b>	<b>-28.8</b>	<b>-51,168</b>	<b>-25.3</b>	<b>-12,543</b>	<b>-8.2</b>	<b>-63,478</b>	<b>-31.4</b>	
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>																
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	176,869	208,084	231,862	31,215	17.6	23,778	11.4	54,993	31.1	27,335	15.5	19,678	9.5	46,646	26.4	
Gweithlu medrus	0	6,000	6,000	6,000	..	0	0.0	6,000	..	5,888	..	-106	-1.8	5,784	..	
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>176,869</b>	<b>214,084</b>	<b>237,862</b>	<b>37,215</b>	<b>21.0</b>	<b>23,778</b>	<b>11.1</b>	<b>60,993</b>	<b>34.5</b>	<b>33,223</b>	<b>18.8</b>	<b>19,572</b>	<b>9.1</b>	<b>52,430</b>	<b>29.6</b>	
TGA refeniw	1,658,658	1,618,924	1,564,094	-39,734	-2.4	-54,830	-3.4	-94,564	-5.7	-69,920	-4.2	-82,486	-5.1	-150,868	-9.1	
DEL cyfalaf	202,134	153,834	143,834	-48,300	-23.9	-10,000	-6.5	-58,300	-28.8	-51,168	-25.3	-12,543	-8.2	-63,478	-31.4	
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>1,860,792</b>	<b>1,772,758</b>	<b>1,707,928</b>	<b>-88,034</b>	<b>-4.7</b>	<b>-64,830</b>	<b>-3.7</b>	<b>-152,864</b>	<b>-8.2</b>	<b>-121,088</b>	<b>-6.5</b>	<b>-95,029</b>	<b>-5.4</b>	<b>-214,346</b>	<b>-11.5</b>	
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	176,869	214,084	237,862	37,215	21.0	23,778	11.1	60,993	34.5	33,223	18.8	19,572	9.1	52,430	29.6	
<b>CYFANSWM Addysg a Sgiliau</b>	<b>2,037,661</b>	<b>1,986,842</b>	<b>1,945,790</b>	<b>-50,819</b>	<b>-2.5</b>	<b>-41,052</b>	<b>-2.1</b>	<b>-91,871</b>	<b>-4.5</b>	<b>-87,865</b>	<b>-4.3</b>	<b>-75,457</b>	<b>-3.8</b>	<b>-161,915</b>	<b>-7.9</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u haildatgan er mwyn dileu'r addasiad o £5 miliwn mewn perthynas â chyllid Addasu a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15

## 8. Cyfoeth Naturiol a Bwyd (CNB)

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol<sup>52</sup> ar gyfer PGG CNB, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ers cynlluniau dangosol o'r llynedd, ac yn crynhoi'r newidiadau blynyddol mwyaf yng nghamau gweithredu/MRhWau y PGG.

Mae PGG CNB yn cyfrif am 2.7% o gyfanswm dyraniadau TGA Llywodraeth Cymru yn 2014-15.

### 8.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol

**Tabl 21** - dengys ddyraniadau yn PGG CNB ar lefel MRhW o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Atodol 2013-14) a sut mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

#### **Cyfanswm TGA**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae cyfanswm TGA ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £20.3 miliwn, neu 5.1%.

Mae'r newidiadau hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Gostyngiadau refeniw o £22.2 miliwn;
- Dyraniadau ychwanegol o £42.5 miliwn.

#### **TGA refeniw**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA refeniw ar gyfer 2014-15 wedi gostwng £22.2 miliwn, neu 6.8%. Mae papur y Gweinidog i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd,<sup>53</sup> yn nodi'r gostyngiadau refeniw canlynol:

- £18.1 miliwn o 'hyblygrwydd domestig' mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Gwledig, o'r rhaglenni Cyflenwi o fewn cam gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig yn MRhW Amaethyddiaeth a Bwyd;
- £4 miliwn mewn perthynas â'r strategaeth wastraff a chaffael gwastraff, o gam gweithredu Rheoli a gweithredu'r strategaeth wastraff a chaffael gwastraff yn MRhW Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd;
- £0.1 miliwn mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, o bolisi Datblygu a gweithredu newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd, cyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau yn MRhW Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd.

---

<sup>52</sup> Noder na fydd y ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon bob amser yn creu cyfansymiau, am fod ffigurau yn cael eu talgrynnu er hwylustod.

<sup>53</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

Mae papur y Gweinidog i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn nodi:

In managing reductions, all budgets have been reviewed to consider their alignment with the Programme for government, economic impacts and the tackling poverty agenda.

...

On reviewing the domestic RDP budget requirements there will be some limited headroom in the Welsh Government rural allocation for the next two and a half financial years. This headroom in the domestic budget enabled much of the savings required to be absorbed within this budget to the amount of £18.1 million. You will wish to note that this will not affect the RDP overall budget as agreed with the European Commission, nor reduce Welsh Government's ability to draw down the EU funds allocated to us for the RDP.<sup>54</sup>

### **TGA cyfalaf**

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol mae TGA cyfalaf ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu £42.5 miliwn (59.7%). Mae'r newidiadau hyn yn ategu prosiectau CBSC,<sup>55</sup> gan gynnwys:

- £7.5 miliwn ar gyfer y rhaglen tlodi tanwydd, a ddefnyddir i sicrhau buddsoddiad preifat pellach drwy Rwymedigaeth Cwmni Ynni (RhCY) Arbed. Mae hyn wedi mynd i mewn i bolisi Datblygu a gweithredu newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd, cyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau yn MRhW Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd.
- £35 miliwn ar gyfer Rhaglen Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol, i gam gweithredu Datblygu a gweithredu'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, polisi dŵr a charthffosiaeth a cham gweithredu deddfwriaeth yn MRhW Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd.

### **GRF**

Yn flaenorol ni fu unrhyw GRF yn y PGG hwn; fodd bynnag mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu £2.9 miliwn yn 2014-15. Mae hyn yn ymwneud â darpariaeth rhwymedigaeth pensiwn ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

---

<sup>54</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd](#), Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

<sup>55</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2014-15](#), (Pennod 4) Hydref 2013 [cyrchwyd 22 Hydref 2013]

Tabl 21: Newidiadau i PGG CNB ers cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Atodol 2013-14

Maes Rhaglen Wariant (MRhW)	Ffigur dangosol 2014-15 yng Nghyllideb Atodol 2013-14	Cyllideb Ddrafft 2014-15	Newid Cyllideb Atodol 2013-14 dangosol 2014-15 i Gyllideb Ddrafft 2014-15	
			£000	y cart
<b>TGA REFENIW</b>				
Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	122,325	118,019	-4,306	-3.5
Yr amgylchedd <sup>1</sup>	82,415	82,501	86	0.1
Sail Dystiolaeth	1,136	1,136	0	0.0
Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid	38,041	38,041	0	0.0
Amaethyddiaeth a Bwyd	80,366	62,373	-17,993	-22.4
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>324,283</b>	<b>302,070</b>	<b>-22,213</b>	<b>-6.8</b>
<b>DEL CYFALAF</b>				
Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	58,584	101,084	42,500	72.5
Yr amgylchedd	795	795	0	0.0
Sail Dystiolaeth	38	38	0	0.0
Amaethyddiaeth a Bwyd	11,723	11,723	0	0.0
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>71,140</b>	<b>113,640</b>	<b>42,500</b>	<b>59.7</b>
<b>CYFANSWM GRF</b>	<b>0</b>	<b>2,900</b>	<b>0</b>	<b>0.0</b>
TGA refeniw	324,283	302,070	-22,213	-6.8
DEL cyfalaf	71,140	113,640	42,500	59.7
<b>CYFANSWM TGA</b>	<b>395,423</b>	<b>415,710</b>	<b>20,287</b>	<b>5.1</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	0	2,900	2,900	..
<b>CYFANSWM Cyfoeth Naturiol a Bwyd</b>	<b>395,423</b>	<b>418,610</b>	<b>23,187</b>	<b>5.9</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft 2014-15 Llywodraeth Cymru

1. Cynlluniau dangosol 2014-15 wedi'u hailddatgan er mwyn dileu'r trosglwyddiad o £1.232 miliwn i Drysorlys EM mewn perthynas â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a nodir yn atodiad C i ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2014-15.

## 8.2. Newidiadau blynyddol

**Tabl 22** - rhydd wybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn PGG CNB ar lefel MRhW, gan ddangos y newidiadau blynyddol yn 2014-15 a'r newidiadau cronol yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

### **Cyfanswm TGA**

- yn cynyddu £1.8 miliwn neu 0.4% (gostyngiad o 1.4% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £14.2 miliwn neu 3.4% (gostyngiad o 6.9% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

### **TGA refeniw**

- yn gostwng £25.2 miliwn neu 7.7% (gostyngiad o 9.4% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn gostwng £35.2 miliwn neu 10.7% (gostyngiad o 14.0% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Nid oes unrhyw gynnydd yn TGA refeniw 2014-15 o gymharu â 2013-14.

Ceir y gostyngiad mwyaf yn TGA refeniw 2014-15 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn MRhW Amaethyddiaeth a Bwyd. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â'r gostyngiad o £18.1 miliwn i'r Cynllun Datblygu Gwledig, o'r rhaglenni Cyflenwi yng ngham gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig, fel y nodwyd uchod.

### **TGA cyfalaf**

- yn cynyddu £27 miliwn neu 31.2% (cynnydd o 28.7% mewn termau real) yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- yn cynyddu £21 miliwn neu 24.3% (cynnydd o 19.8% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Mae'r unig gynnydd yn TGA cyfalaf 2014-15 yn MRhW Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, lle gwelir cynnydd o £29.7 miliwn neu 41.6%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 39%. Mae hyn yn debyg o ymwneud â'r dyraniadau cyfalaf ychwanegol a nodwyd uchod.

Yr unig ostyngiad yn TGA cyfalaf 2014-15 yw yn MRhW Amaethyddiaeth a Bwyd, lle gwelir gostyngiad o £2.7 miliwn, neu 18.7%. Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 20.2%. Ni roddir unrhyw fanylion am y newid hwn.

## **GRF**

- Yn cynyddu £2.9 miliwn o sero yn 2014-15 o gymharu â 2013-14.
- Yn cynyddu £2.9 miliwn o sero dros gyfnod y gyllideb (2013-14 i 2015-16).

Mae hyn o ganlyniad i'r dyraniad ychwanegol mewn perthynas â rhwymedigaeth pensiynau Cyfoeth Naturiol Cymru, a nodwyd uchod.



Tabl 22: Newidiadau blynyddol i PGG CNB

Maes Rhaglen Wariant (MRhW)	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Newid 2013-14 i		Newid 2014-15 i		Newid		Newid termau		Newid termau		Newid termau	
	Atodol 2013-14	Ddrafft 2014-15	Ddrafft ddangoso I 2015-16	2013-14 i 2014-15	y cart	2014-15 i 2015-16	y cart	cyffredinol 2013-14 i 2015-16	y cart	real 2013-14 i 2014-15	y cart	real 2014-15 i 2015-16	y cart	real 2013-14 i 2015-16	y cart
	£000	£000	£000	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart
<b>TGA REFENIW</b>															
Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	118,778	118,019	117,019	-759	-0.6	-1,000	-0.8	-1,759	-1.5	-2,960	-2.5	-3,069	-2.6	-5,971	-5.0
Yr amgylchedd <sup>1</sup>	87,783	82,501	80,000	-5,282	-6.0	-2,501	-3.0	-7,783	-8.9	-6,820	-7.8	-3,916	-4.7	-10,663	-12.1
Sail Dystiolaeth	1,136	1,136	1,136	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-21	-1.9	-20	-1.8	-41	-3.6
Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid	38,895	38,041	38,041	-854	-2.2	0	0.0	-854	-2.2	-1,563	-4.0	-673	-1.8	-2,223	-5.7
Amaethyddiaeth a Bwyd	80,686	62,373	55,915	-18,313	-22.7	-6,458	-10.4	-24,771	-30.7	-19,476	-24.1	-7,447	-11.9	-26,784	-33.2
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>327,278</b>	<b>302,070</b>	<b>292,111</b>	<b>-25,208</b>	<b>-7.7</b>	<b>-9,959</b>	<b>-3.3</b>	<b>-35,167</b>	<b>-10.7</b>	<b>-30,840</b>	<b>-9.4</b>	<b>-15,124</b>	<b>-5.0</b>	<b>-45,682</b>	<b>-14.0</b>
<b>DEL CYFALAF</b>															
Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	71,368	101,084	95,084	29,716	41.6	-6,000	-5.9	23,716	33.2	27,831	39.0	-7,681	-7.6	20,293	28.4
Yr amgylchedd	795	795	795	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-15	-1.9	-14	-1.8	-29	-3.6
Sail Dystiolaeth	38	38	38	0	0.0	0	0.0	0	0.0	-1	-1.9	-1	-1.8	-1	-3.6
Amaethyddiaeth a Bwyd	14,423	11,723	11,723	-2,700	-18.7	0	0.0	-2,700	-18.7	-2,919	-20.2	-207	-1.8	-3,122	-21.6
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>86,624</b>	<b>113,640</b>	<b>107,640</b>	<b>27,016</b>	<b>31.2</b>	<b>-6,000</b>	<b>-5.3</b>	<b>21,016</b>	<b>24.3</b>	<b>24,897</b>	<b>28.7</b>	<b>-7,903</b>	<b>-7.0</b>	<b>17,141</b>	<b>19.8</b>
